Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

# Adroddiad Aelodaeth Blynyddol: Data gan y gwasanaethau arbenigol yng Nghymru 2021/22

Cyfnod 01/04/2021 – 31/03/2022

# Diolchiadau

Rydym ni'n hynod o ddiolchgar i'r gwasanaethau arbenigol sy'n aelodau o Cymorth i Ferched Cymru, sydd wedi darparu eu data sy'n llywio'r adroddiad hwn. Rydym ni'n cydnabod y galwadau cynyddol ar eu gwasanaethau a'u hadnoddau i gefnogi'r menywod, dynion a phlant a phobl ifanc y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) wedi effeithio arnynt, ac yn gwerthfawrogi eu hymdrechion yn gweithio gyda ni i lunio darlun cenedlaethol o'r sector.

**Cyhoeddwyd gan:**
Cymorth i Ferched Cymru,
Tŷ Pendragon
Plas Caxton
Pentwyn
Caerdydd CF23 8XE

**Cyfeiriwch at yr adroddiad hwn fel:**
Cymorth i Ferched Cymru (2022) Adroddiad Aelodaeth Blynyddol: Data gan y gwasanaethau arbenigol yng Nghymru 2021/22. Caerdydd: Cymorth i Ferched Cymru



# Rhagair

Ar ôl gweithio ar linellau blaen y pandemig, mae unigolion a gwasanaethau arbenigol nawr yn dechrau ar gyfnod newydd o ansicrwydd a ddiffinnir gan brisiau ynni cynyddol a chostau byw eraill, sy'n effeithio ar eu defnyddwyr gwasanaeth a'u staff. Er mwyn i'r degawdau o brofiad ac arbenigedd sydd yn y gwasanaethau arbenigol hyn allu parhau, rhaid i gomisiynwyr a chyllidwyr sicrhau eu bod yn parhau i dderbyn adnoddau digonol. Dyma fydd prif ffocws Cymorth i Ferched Cymru dros y misoedd nesaf.

Mae gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a chymorth arbenigol trais rhywiol i ddynion a bechgyn, yn parhau i ddarparu rôl hanfodol mewn cymunedau ledled Cymru. Yn ei hanfod, yn aml nid yw'r gwaith hwn yn aml yn weladwy am resymau diogelwch, ond fel y gwelwch yn yr adroddiad hwn, maent yn parhau i helpu'r rheini sydd â'r angen mwyaf.

Er bod y galw a chymhlethdod yr achosion wedi parhau'n uchel ar ôl y cyfnodau clo, fe welwch o'r data yn yr adroddiad hwn fod y rhan fwyaf o bobl sydd angen help yn gallu ei gyrchu. I'r rheini sydd ag anghenion cymhleth gan gynnwys gwahaniaethu croestoriadol, mae Cymorth i Ferched Cymru yn parhau i eiriol am gyllid newydd a chynyddol ochr yn ochr â'r dulliau arloesol sy'n cael eu treialu ymhlith ein haelodau. Gyda'n gilydd gobeithio y gallwn weithio i greu system yng Nghymru sydd wir yn cael ei harwain gan anghenion, ei llywio gan drawma ac yn canolbwyntio ar y goroeswr.

# Cynnwys


Cyflwyniad 1

Trosolwg Cenedlaethol: 2021/22 3

Y gwasanaethau arbenigol 4

Pwy sy'n defnyddio gwasanaethau arbenigol? 7

1.1: Rhyw goroeswyr 8
1.2: Oed 8
1.3: Anabledd 9
1.4: Hunaniaeth rhywedd 10
1.5: Hil ac ethnigrwydd 10
1.6: Crefydd neu gred 11
1.7: Cyfeiriadedd rhywiol 12
1.8: Beichiogrwydd a mamolaeth 13
1.9: Iaith 13
1.10: Priodas a phartneriaeth sifil 13

Gwasanaethau cymorth lloches 15

2.1: Atgyfeiriadau a mynediad at wasanaethau 15
2.2: Goroeswyr nad oedd modd eu cefnogi 16
2.3: Ffynonellau atgyfeirio a lleoliad 19
2.4: Plant goroeswyr mewn cymorth lloches 21
2.5: Rhyw y prif gyflawnwr 22
2.6: Y mathau o gam-drin 23
2.7: Anghenion Cymorth 24
2.8: Atgyfeiriadau cynadleddau asesu risg amlasiantaethol (MARAC) 25
2.9: Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus: Cymorth lloches 25
2.10: Symud ymlaen o gymorth arbenigol 25

Gwasanaethau cymorth yn y gymuned 28

3.1: Atgyfeiriadau a mynediad at wasanaeth 28
3.2: Darpariaeth gwasanaeth i blant a phobl ifanc 29
3.3: Rhyw y prif gyflawnwr 30
3.4: Y mathau o gam-drin a ddatgelwyd 30
3.5: Anghenion cymorth 31
3.6: Diogelu ac Atgyfeiriadau Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) 32

# Cynnwys


Gwasanaethau trais rhywiol 34

4.1: Atgyfeiriadau a mynediad at wasanaeth 34

4.2: Ffononellau atgyfeirio 35

4.3: Rhyw of the prif gyflawnwr 36

4.4: Y mathau o gam-drin a ddatgelwyd 36

4.5: Anghenion Cymorth 37

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn 39

5.1: Nifer y cysylltiadau 39

5.2: Gwybodaeth am y rhai sy'n galw 41

5.3: Cefnogi plant a phobl ifanc 42

5.4: Cyfeirio ac atgyfeirio at asiantaethau eraill 43

5.5: Adborth gan ddefnyddwyr 45

5.6: Adborth gan oroeswyr ac eraill sy'n bryderus 45

5.7: Adborth gan asiantaethau eraill 46

Atodiadau 47

# Cyflwyniad

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw byd lle mae menywod a phlant yn byw'n rhydd rhag cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod a thrwy hynny gyflawni annibyniaeth, rhyddid a rhyddhad o ormes. Rydym ni'n gweithio fel ffederasiwn er mwyn sicrhau bod:

- Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn cael ei ddeall yn well, ei herio a'i atal.
- Llywodraethau, asiantaethau a chymunedau'n cael eu dal yn atebol am weithredu dros newid gan fenywod a phlant.
- Y wladwriaeth, asiantaethau a chymunedau'n cyflenwi ymatebion mwy effeithiol i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
- Goroeswyr yn cael cymorth buan sy'n bodloni eu hanghenion ac yn gwella eu hiechyd a'u llesiant.
- Gwasanaethau arbenigol yn cael eu cryfhau a'u cefnogi i fodloni anghenion amrywiol yn effeithiol a lleihau effeithiau niweidiol trais.
- Menywod a phlant yn cael perthnasoedd iach, diogel a chyfartal.

Mae cyffredinolrwydd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn parhau ynghudd i raddau helaeth. Mae achosion o ladd menywod, cam-drin domestig, priodas dan orfod, aflonyddu rhywiol, anffurfio organau cenhedlu benywod a mathau eraill o gam-drin yn aml yn anweladwy mewn ystadegau swyddogol yn genedlaethol ac yn lleol, a cheir diffyg consensws am sut y dylid diffinio a mesur trais o'r fath, a'r ffordd orau i gyflawni hyn. Yn ôl amcangyfrifon diweddar gan Lywodraeth y DU mae cost cam-drin i ddioddefwyr yng Nghymru a Lloegr yn £66 biliwn[1]. Nid yw hyn yn cynnwys cost yr holl fathau eraill o drais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys trais rhywiol, yr hyn a elwir yn gam-drin ar sail anrhydedd a cham-fanteisio rhywiol.

1 Y Swyddfa Gartref, Research and analysis: The economic and social costs of domestic abuse. (Gwefan Llywodraeth y DU, 2019). Ar gael: www.gov.uk/government/publications/the- economic-and-social-costs-of-domestic-abuse.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar atgyfeiriadau a defnydd goroeswyr o wasanaethau arbenigol ym mlwyddyn ariannol 2021/22. Mae'r data yn gyfyngedig i'r hyn a ddarparwyd gan aelodau o'n ffederasiwn drwy'r flwyddyn ac ar ddiwedd y flwyddyn, a gan ein cronfa ddata Gymreig o ddarpariaeth gwasanaethau arbenigol VAWDASV lleol a chenedlaethol.

Y ffynonellau data penodol sy'n llywio'r adroddiad yw:

## Data Monitro Chwarterol

Ar ddiwedd pob chwarter yn 2021/22, dosbarthodd Cymorth i Ferched Cymru ffurflen ddata i gasglu ystadegau allbwn a chanlyniadau gan aelod-wasanaethau.

Mae'r adroddiad dadansoddi data blynyddol hwn yn cynnwys y setiau data cronnus a gyflwynwyd gan yr aelodau i ddangos y galw cenedlaethol am eu gwasanaethau a natur yr ymatebion a ddarparwyd ledled Cymru.

## Cronfa ddata 'Routes to Support'

Mae data wedi'i gynnwys hefyd o "Routes to Support", yr unig gronfa ddata ar-lein ledled y DU sy'n cynnwys gwybodaeth gyfredol am wasanaethau cam-drin domestig a thrais arall yn erbyn menywod yn lleol a chenedlaethol drwy'r DU. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data ar gyfer yr holl wasanaethau yng Nghymru – yn ehangach na'n haelodaeth – i ddarparu darlun cenedlaethol o'r galw a darpariaeth gwasanaethau ledled Wales.

Rheolir prosiect Routes to Support gan Cymorth i Ferched Cymru (yng Nghymru) mewn partneriaeth gyda Ffederasiwn Women's Aid yn Lloegr, Scottish Women's Aid a Ffederasiwn Women's Aid Gogledd Iwerddon.

## Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Mae data wedi'i gynnwys o Linell Gymorth genedlaethol Byw Heb Ofn yng Nghymru, a reolir ac a gyflwynir gan Cymorth i Ferched Cymru ac a gyllidir gan Lywodraeth Cymru.

# Trosolwg Cenedlaethol: 2021/22



Ymatebodd Llinell Gymorth Byw Heb Ofn i **35,491** cyswllt.

Cyfeiriwyd **10,296** o oroeswyr at wasanaethau arbenigol lleol yn ystod y flwyddyn ariannol.

## Gwasanaethau cymorth lloches



Cafodd **1,117** o oroeswyr fudd o'r gwasanaethau cymorth lloches.

Methodd **848** o oroeswyr â chael cefnogaeth gan y gwasanaethau cymorth lloches.

Roedd **244** o blant a phobl ifanc, ar gyfartaledd, yn byw mewn lloches.

Cafodd **24** o oroeswyr 'heb hawl i gyllid cyhoeddus' gefnogaeth lloches.

## Gwasanaethau cymorth yn seiliedig ar drais rhywiol



Cefnogwyd **13,708** o oroeswyr gan wasanaethau cymorth yn y gymuned.

Methodd **901** o oroeswyr â chael cefnogaeth gan y gwasanaethau cymorth yn y gymuned.

Cafodd **2,767** o blant a phobl ifanc gefnogaeth uniongyrchol yn y cyfnod hwn.

Cafodd **25** o oroeswyr gymorth i ymgeisio am y Rheol Trais Domestig.[2]

## Gwasanaethau cymorth yn seiliedig ar drais rhywiol



Cafodd **2,164** o oroeswyr gymorth gan wasanaethau cymorth yn seiliedig ar drais rhywiol.

Roedd **199** o oroeswyr yn dal ar y rhestr aros ar ddiwedd Chwarter 4.

2 Gall personau sy'n dod i'r DU ar fisa priod neu bartner ac sy'n profi trais domestig ymgeisio am Ganiatâd Amhenodol i Aros dan y rheol trais domestig

# Y gwasanaethau arbenigol


Nod gwasanaethau arbenigol i oroeswyr (a gyflwynir er enghraifft drwy wasanaethau lloches sy'n cynnwys cymorth lloches, cymorth symudol ac allgymorth cymunedol; neu drwy gymorth a chwnsela argyfwng trais a thrais rhywiol; eiriolaeth annibynnol a chanolfannau menywod 'siop un stop') yw cyflwyno cymorth a gaiff ei arwain gan anghenion, yn seiliedig ar gryfder, yn ymatebol i rywedd, a'i lywio gan drawma. Mae'r gwasanaethau hyn yn diogelu, cefnogi a grymuso goroeswyr a'u plant ac yn gweithio i atal trais a cham-drin rhag dechrau a dwysáu, ac fe'u darperir gan staff arbenigol gyda gwybodaeth eang am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ein haelod-wasanaethau sy'n cynnig diogelwch ffisegol ac emosiynol, cymorth eiriolaeth a help ymarferol, a gyflwynir drwy gyfuniad o **gymorth lloches, allgymorth cymunedol**[3] a **gwasanaethau trais rhywiol/argyfwng trais penodol**. Mae gwasanaethau lloches yn rhan o rwydwaith o ddarpariaeth genedlaethol a ledled y DU sy'n helpu teuluoedd i gael mynediad 24 awr a symud rhwng llochesi os oes angen.



Mae **cymorth lloches** yn cyflwyno rhaglen wedi'i chynllunio o gymorth therapiwtig ac ymarferol, yn ogystal â lle i aros a mynediad at gymorth cymheiriaid gan oroeswyr eraill.

Mae hyn yn cynnwys mynediad 24 awr; gwybodaeth a help ymarferol, cefnogaeth unigol a grŵp a chynllunio diogelwch; cwnsela; cefnogaeth ac eiriolaeth gyda thai, cyllid gan gynnwys budd-daliadau/dyled; iechyd a llesiant, rhianta, mewnfudo, cyfreithiol, y systemau cyfiawnder troseddol a theuluol, addysg a chyflogaeth. Mae'r gwasanaeth wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion goroeswyr a'u plant ac yn seiliedig ar yr anghenion hynny, ac fe'i cyflwynir gan weithwyr cymorth (gan gynnwys gweithwyr cymorth penodol i blant a phobl ifanc) profiadol ac wedi'u hyfforddi mewn trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mewn amgylchedd sy'n grymuso menywod a phlant ac yn hybu eu hannibyniaeth a'u hunan-benderfyniad. Mae hyn hefyd yn cynnwys cymorth ailsefydlu sy'n helpu goroeswyr i symud ymlaen i fyw eu bywyd ac ymgartrefu mewn cymunedau lleol.



Mae **allgymorth cymunedol cam-drin domestig / VAWDASV** yn cyflwyno eiriolaeth, gwarchodaeth a chymorth i oroeswyr mewn cymunedau lleol drwy linell gymorth a gwybodaeth; cwnsela seicolegol tymor byr a thymor hir; gwybodaeth a chymorth ymarferol,

3 Yn cynnwys 'cymorth symudol'. Cymorth Symudol yw cymorth a ddarperir yn y gymuned a gyllidir gan Cefnogi Pobl â'r nod o ddarparu cymorth yn ymwneud â thai yn y gymuned i gynnal tenantiaethau neu ailgartrefu goroeswyr.

cefnogaeth unigol a grŵp, a chynllunio diogelwch; grwpiau cymorth cymheiriaid; cymorth ac eiriolaeth gyda thai a chynnal tenantiaethau, cymorth gyda chyllid gan gynnwys budd-daliadau/dyled, iechyd a llesiant, rhianta, mewnfudo, materion cyfreithiol, addysg a chyflogaeth; eiriolaeth a chymorth i oroeswyr ddefnyddio llysoedd trais domestig arbenigol, systemau troseddol a chyfiawnder teuluol; eiriolaeth ac addysg i gefnogi goroeswyr sy'n defnyddio gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol, mamolaeth a thriniaeth frys (e.e. eiriolaeth IRIS mewn meddygfeydd teulu); ac eiriolaeth, cymorth a chwnsela i oroeswyr sydd wedi profi mathau niferus o gam-drin.



Mae **gwasanaethau penodol ar gyfer argyfwng trais a thrais rhywiol** yn darparu gwasanaethau i oroeswyr trais ac ymosod rhywiol drwy gwnsela, sesiynau therapiwtig, cymorth unigol neu grŵp. Mae gweithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi ar gael hefyd i ddarparu gwybodaeth ac eiriolaeth gyda gwasanaethau iechyd, tai, cyllid, llesiant, rhianta, addysg a chyflogaeth, yn ogystal â chynnig cymorth drwy'r broses gyfreithiol, pe bai unigolion yn dymuno adrodd ai peidio.



Mae **gwaith partneriaeth** yn cynnwys eiriolaeth sefydliadol, hyfforddiant, darparu cyngor arbenigol a chodi sgiliau gweithwyr proffesiynol, gwasanaethau a phartneriaethau i allu adnabod, ymateb ac atal trais a cham-drin yn well, a darparu llwybrau atgyfeirio o'r gwasanaethau cyhoeddus i oroeswyr allu cyrchu cymorth arbenigol.



Ceir **gwaith atal mewn cymunedau lleol** drwy ymgysylltu cymunedol a chefnogi hyrwyddwyr i godi llais yn erbyn trais; addysgu plant, pobl ifanc ac oedolion; cefnogi goroeswyr i ymwneud â gwella gwasanaethau; cyflwyno rhaglenni grymuso (e.e. gwaith cyflogadwyedd a gwrth-dlodi) a herio anghydraddoldeb rhwng dynion a menywod a gwahaniaethu croestoriadol sef prif achos a chanlyniad trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.



**Hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol**, sy'n cynnwys datblygu a chyflenwi gwasanaethau a arweinir gan fenywod ac i fenywod ac a arweinir gan fenywod Du a lleiafrifol ethnig (BME) ar eu cyfer nhw. Mae darpariaeth ddiogel ar wahân i ddynion a menywod, a gwasanaethau a arweinir gan/ar gyfer menywod a gan/ar gyfer menywod BME yn galluogi gwasanaethau arbenigol i weithredu drwy fframwaith o rymuso a hunanbenderfynu. Nid yn unig mae'r gwasanaethau'n cynnig diogelwch a chymorth, ond maent hefyd yn grymuso menywod sy'n gweld ac yn clywed nad yw eu profiadau o rywiaeth, hiliaeth neu homoffobia yn ynysig, ac yn helpu menywod i ganfod cyd-gymorth a

hunanbenderfyniad. Mae  goroeswyr cam-drin yn rhoi gwerth mawr ar gymorth wedi'i deilwra i oroeswyr o gymunedau Du a lleiafrifol ethnig a goroeswyr sy'n fenywod, gan weithwyr cymorth sy'n deall y risgiau penodol a dynameg trais a brofir gan fenywod ac a brofir mewn cymunedau gwahanol a'r rhwystrau o ran cysylltu â gwasanaethau prif ffrwd.

**Rhaglenni rheoli risg a newid ymddygiad i gyflawnwyr;** mae rhai gwasanaethau hefyd yn darparu rhaglenni newid ymddygiad ac ymyriadau unigol i gyflawnwyr, sy'n cynnwys rhaglenni i gyflawnwyr trais domestig a  gwasanaethau diogelwch a chymorth ochr yn ochr i bartneriaid/dioddefwyr.

Mae **Llinell Gymorth Byw Heb Ofn** yn llinell 24 awr 365 diwrnod y flwyddyn i oroeswyr y mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn effeithio arnynt. Hwn yw prif bwynt cyswllt goroeswyr, teulu/ffrindiau a gweithwyr proffesiynol, gan gyflwyno ymatebion cyfannol ac integredig gan gynnwys gwybodaeth/cyfeirio; asesiadau o anghenion a risg; cynllunio diogelwch, cymorth ac eiriolaeth; a llwybrau atgyfeirio at wasanaethau arbenigol a chyffredinol yng Nghymru a'r DU.

**Ceir mynediad at yr holl wasanaethau arbenigol** drwy gyfuniad o hunan-atgyfeirio, atgyfeirio gan asiantaethau eraill neu atgyfeirio drwy Linell Gymorth genedlaethol Byw Heb Ofn (a gyflwynir gan Cymorth i Ferched Cymru gyda chyllid Llywodraeth Cymru).

**Safonau ansawdd:** Mae gwasanaethau arbenigol VAWDASV yng Nghymru yn gweithredu mewn fframwaith o safonau ansawdd gwasanaeth achrededig sy'n cynnig meincnodau ar gyfer darparwyr gwasanaeth, cyllidwyr a chomisiynwyr am raddfa a chyfuniad y gwasanaethau a ddylai fod ar gael, pwy ddylai eu darparu a'r egwyddorion sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'r sail ymarfer y dylent weithredu arnynt. Yng Nghymru, Cymorth i Ferched Cymru sy'n darparu'r Safonau Ansawdd Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, sy'n gweithredu ochr yn ochr â safonau gwasanaeth penodol ar gyfer trais rhywiol i Gymru a achredir gan Rape Crisis England & Wales ac Ymddiriedolaeth y Goroeswyr. Ochr yn ochr â'r rhain mae safonau gwasanaeth Imkaan ar gyfer gwasanaethau arbenigol a arweinir gan ac ar gyfer menywod Du a lleiafrifol ethnig, ynghyd â safonau Respect wrth weithio gyda chyflawnwyr.

# Pwy sy'n defnyddio gwasanaethau arbenigol?

Mae trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn digwydd ym mhob cymuned ac yn gyffredin drwy bob grŵp economaidd-gymdeithasol, beth bynnag eu hoed, hunaniaeth rhywedd, gallu, rhywioldeb, ethnigrwydd, crefydd neu gred. Fodd bynnag yn aml mae'n aros ynghudd oherwydd bygythiadau, cywilydd, embaras ac ofn.

Mae nifer anghymesur o ddynion yn cyflawni cam-drin ac effeithir yn anghymesur ar fenywod gan drais a cham-drin domestig, trais rhywiol a cham-drin plant yn rhywiol, stelcio, yr hyn a elwir yn drais 'ar sail anrhydedd, priodas dan orfod, anffurfio organau cenhedlu benywod, trais gangiau a'r fasnach mewn pobl.

Mae rhai grwpiau o fenywod yn fwy tebygol o gael eu cam-drin, gan gynnwys menywod iau, menywod a merched anabl, menywod a merched ag anghenion cymorth iechyd meddwl, dibyniaeth ar gyffuriau/alcohol, neu sy'n wynebu digartrefedd. Gall menywod o rai grwpiau Du a lleiafrifol ethnig wynebu rhwystrau pellach at geisio cymorth oherwydd hiliaeth, gwahaniaethu, stigmateiddio, a chael eu gwrthod gan y gymuned.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn hybu ymagwedd croestoriadol, sy'n cydnabod profiadau unigryw goroeswyr cam-drin a'r ffyrdd y gall gwahaniaeth ac anfantais helpu neu rwystro mynediad at gymorth, diogelwch a chyfiawnder. Mae gwahaniaethau fel oed, rhyw, rhywedd, dosbarth, ethnigrwydd, gallu a rhywioldeb yn croestorri i lywio profiadau bywyd a gall y ffactorau hyn atgyfnerthu ymhellach amodau anghydraddoldeb ac eithrio. Mae hyn yn golygu y gall trais rhyw ac yn seiliedig ar rywedd fod yn gysylltiedig â ffactorau fel ethnigrwydd, oed, dosbarth, anabledd a rhywioldeb.

Wrth gyflenwi gwasanaethau cymorth, mae gwasanaethau arbenigol yn ymrwymo i ymarfer gwrth-wahaniaethol ac ymdrin â'r anghydraddoldebau croestoriadol a brofir gan fenywod a dynion.

Anogir aelod-wasanaethau i ddadelfennu data yn ôl y naw 'nodwedd warchodedig' a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (rhyw, oed, anabledd, ailbennu rhywedd, hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, priodas neu bartneriaeth sifil, a beichiogrwydd a mamolaeth). Cesglir y data hwn gan oroeswyr sydd newydd eu hatgyfeirio ac sy'n ymgysylltu â gwasanaethau arbenigol am gymorth[4], i helpu'r gwasanaethau i gydymffurfio â'u cyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch ac wedi'u targedu, a bod unrhyw un sy'n defnyddio eu gwasanaethau'n cael eu trin yn deg heb wahaniaethu.

4 Mae data ar gael ar gyfer goroeswyr a ymgysylltodd â gwasanaethau cymunedol, trais rhywiol a lloches yn unig. Mae data'n ymwneud ânodweddion gwarchodedig yn ymwneud â phlant ac oedolion 16+ oed.

## 1.1: Rhyw goroeswyr

Casglwyd rhyw goroeswyr ar gyfer 99% (n=13,048 ) o oroeswyr a ymgysylltodd â'r gwasanaethau arbenigol ym mlwyddyn ariannol 2021/22. Ar draws y gwasanaethau arbenigol, roedd 93% (n=12,076) o'r holl oroeswyr yn fenywaidd tra bo goroeswyr gwrywaidd yn cynrychioli 7% (n=958) o'r sampl data. Gwerth nodi bod <1% (n=14) o'r goroeswyr yn cael eu categoreiddio fel 'rhyngryw'. O'r 958 o oroeswyr gwrywaidd, roedd y gyfran uchaf (n=213, 15%) yn cysylltu â gwasanaethau trais rhywiol.

Tabl 1:
### Rhyw goroeswyr mewn gwasanaethau cymorth arbenigol


| | Cymorth lloches | | Cymorth yn y gymuned | | Cymorth trais rhywiol pwrpasol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwrywaidd | 10 | **1%** | 735 | **7%** | 213 | **15%** |
| Benywaidd | 866 | **99%** | 10,031 | **93%** | 1,179 | **83%** |
| Arall | 0 | **0%** | 2 | **0%** | 12 | **1%** |
| Dewis peidio dweud | 0 | **0%** | 0 | **0%** | 8 | **1%** |
| **Cyfanswm y sampl** | **876** | | **10,768** | | **1,412** | |
| Dim data ar gael | 0 | | 189 | | 0 | |

## 1.2: Oed

Roedd y data ar oed ar gael ar gyfer 81% (n=10,693) o'r goroeswyr oedd yn cyrchu'r gwasanaethau cymorth. Y categori oed mwyaf cyffredin ymhlith goroeswyr oedd yn cyrchu gwasanaethau cymorth yn y flwyddyn ariannol hon oedd rhwng 25 a 34 oed (n=3,710, 35%). Mae hyn yn cyd-fynd â'r data a ddarparwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2020/21). O'r 10,693 o oroeswyr y cofnodwyd eu hoed, roedd 17% (n=1,794) yn 16-24 a 3% (n=338) yn 16 neu iau. Yn y flwyddyn ariannol hon, roedd 2% (n=234) o oroeswyr yn 65 neu hŷn. Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi cefnogi adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru[5] ar gam-drin pobl hŷn sy'n edrych ar sut y gellir gwneud cymorth yn fwy hygyrch i bobl hŷn sydd yn profi neu wedi profi cam-drin.

5 Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, *Atal Cam-drin Pobl Hŷn* [Gwefan], https://olderpeoplewales.com/en/stopping-abuse.aspx, (cyrchwyd 25 Awst 2021).

Ffigur 1:
Ystod oedran goroeswyr sy'n ymgysylltu â gwasanaethau yn dilyn atgyfeiriad




## 1.3: Anabledd

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn cefnogi ac yn eiriol dros y model cymdeithasol o anabledd ac felly rydym ni'n anelu at chwalu rhwystrau diangen a allai atal goroeswyr ag anabledd rhag cyrchu gwasanaethau cymorth arbenigol. O'r goroeswyr a ymgysylltodd â'r gwasanaethau, datgelodd o leiaf 12% (n=1,631) anabledd, gyda'r gyfran uchaf (n=387, 27%) yn cyrchu gwasanaethau cymorth trais rhywiol. Mae'n werth nodi ei bod yn debygol bod y ffigurau hyn yn danamcaniad gan nad yw pob sefydliad yn gallu casglu'r data hwn. Mae ymchwil[6] wedi dangos bod menywod ag anabledd yn fwy tebygol o brofi trais a cham-drin na menywod heb anabledd. I gael rhagor o wybodaeth am VAWDASV ac anabledd, cyfeiriwch at ein hadroddiad diweddar gydag Anabledd Cymru a'r arolwg o oroeswyr, sy'n gosod argymhellion ar gyfer gwasanaethau arbenigol a chyhoeddus.[7]

6 ONS, *Disability and Crime, UK: 2019 [Gwefan],* www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/compendium/focusonviolentcrimeandsexualoffences/yearendingmarch2015/chapter4intimatepersonalviolenceandpartnerabuse#heavily-victimised-groups-of-partner-abuse, (cyrchwyd 25 Awst 2021).
7 Mae'r adroddiad ar gael ar-lein: www.welshwomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/04/WWA-and-Disability-Wales-2019-report-Final-ENG.pdf

## 1.4: Hunaniaeth rhywedd

O ran goroeswyr a ddatgelodd eu hunaniaeth rywiol (n=10,662) datgelwyd bod 2% (n=222) yn uniaethu'n berson traws (e.e., trawsryweddol, menywod traws, dynion traws, trawsrywiol), gyda'r gyfran uchaf yn eu plith yn cyrchu gwasanaethau cymorth yn y gymuned.

## 1.5: Hil ac ethnigrwydd

Roedd data ar ethnigrwydd ar gael ar gyfer 70% (n=9,307) o oroeswyr. O'r rhain, Gwyn: Prydeinig, oedd yr ethnigrwydd mwyaf cyffredin ymhlith goroeswyr (n=8,307, 89%), ac yna Gwyn: Arall (n=242, 3%). Gwerth nodi mai dim ond 11% (n=1,000) o oroeswyr oedd uniaethu'n hil neu ethnigrwyd ar wahân i Wyn Prydeinig. Ceir dadansoddiad llawn o ethnigrwydd yn Nhabl 2.

Tabl 2:

### Cefndiroedd ethnig goroeswyr yn ymgysylltu â gwasanaethau yn dilyn atgyfeiriad

| | Cymorth lloches | | Cymorth yn y gymuned | | Cymorth trais rhywiol pwrpasol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwyn: Prydeinig (Cymru/Lloegr/Yr Alban/Gogledd Iwerddon) | 547 | **80%** | 6,782 | **89%** | 978 | **97%** |
| Gwyn: Gwyddelig | 13 | **2%** | 14 | **0%** | 2 | **0%** |
| Gwyn: Gwyddelig neu Deithiwr Sipsi | 4 | **1%** | 20 | **0%** | 0 | **0%** |
| Gwyn: Arall | 39 | **6%** | 202 | **3%** | 1 | **0%** |
| Grŵp ethnig cymysg/lluosog: Gwyn ac Asiaidd | 4 | **1%** | 25 | **0%** | 7 | **1%** |
| Grŵp ethnig cymysg/lluosog: Gwyn a Du Affricanaidd | 4 | **1%** | 29 | **0%** | 5 | **0%** |
| Grŵp ethnig cymysg/lluosog: Gwyn a Du Caribïaidd | 3 | **0%** | 63 | **1%** | 0 | **0%** |
| Grŵp ethnig cymysg/lluosog: Cymysg arall | 5 | **1%** | 71 | **1%** | 2 | **0%** |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig: Bangladeshi | 10 | **1%** | 53 | **1%** | 2 | **0%** |

| | Cymorth lloches | | Cymorth yn y gymuned | | Cymorth trais rhywiol pwrpasol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig: Tsieineaidd | 2 | **0%** | 14 | **0%** | 5 | **0%** |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig: Indiaidd | 4 | **1%** | 21 | **0%** | 0 | **0%** |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig: Pacistani | 5 | **1%** | 60 | **1%** | 1 | **0%** |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig: Asiaidd arall | 11 | **2%** | 59 | **1%** | 0 | **0%** |
| Du neu Ddu Prydeinig: Du Affricanaidd | 18 | **3%** | 69 | **1%** | **1** | **0%** |
| Du neu Ddu Prydeinig: Du Caribïaidd | 0 | **0%** | 19 | **0%** | 1 | **0%** |
| Du neu Ddu Prydeinig: Du arall | 3 | **0%** | 45 | **1%** | 1 | **0%** |
| Grŵp Ethnig Arall: Arabaidd | 4 | **1%** | 32 | **0%** | 0 | **0%** |
| Grŵp Ethnig Arall: Arall | 10 | **1%** | 37 | **01%** | 0 | **0%** |
| **Cyfanswm y sampl** | **686** | **100%** | **7,615** | **100%** | **1,006** | **100%** |
| Dim data ar gael | 190 | | 3,342 | | 406 | |

## 1.6: Crefydd neu gred

O'r  6,462 (49%) o oroeswyr a ddatgelodd eu crefydd neu gred, cofnodwyd bod 69% (n=4,433) heb unrhyw grefydd. Y categorïau crefydd mwyaf cyffredin oedd 'Cristnogaeth (pob enwad)' oedd yn cyfrif am 20% (n=1,270) o oroeswyr, ac yna Islam oedd yn cynrychioli 4% o oroeswyr (n=231).

Tabl 3:
Crefydd neu gred goroeswyr yn ymgysylltu â gwasanaethau yn dilyn atgyfeiriad

| | Cymorth lloches | | Cymorth yn y gymuned | | Cymorth trais rhywiol pwrpasol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dim crefydd | 433 | **67%** | 3,796 | **70%** | 204 | **53%** |
| Bwdhydd | 1 | **0%** | 24 | **0%** | 1 | **0%** |
| Cristion (pob enwad) | 125 | **19%** | 1,060 | **20%** | 85 | **22%** |
| Hindŵ | 3 | **0%** | 10 | **0%** | 0 | **0%** |
| Iddew | 1 | **0%** | 2 | **0%** | 0 | **0%** |
| Mwslim | 43 | **7%** | 179 | **3%** | 9 | **2%** |
| Sikh | 1 | **0%** | 7 | **0%** | 1 | **0%** |
| Arall | 16 | **2%** | 130 | **2%** | 12 | **3%** |
| Dewis peidio dweud | 27 | **4%** | 221 | **4%** | 71 | **19%** |
| **Cyfanswm y sampl** | 650 | **100%** | 5,429 | **100%** | 383 | **100%** |
| Dim data ar gael | 226 | | 5,528 | | 1,029 | |

## 1.7: Cyfeiriadedd rhywiol

Datgelwyd cyfeiriadedd rhywiol gan 7,698 o oroeswyr sy'n cynrychioli 58% o'r holl oroeswyr yn cyrchu gwasanaethau cymorth yn y flwyddyn ariannol hon (2021/22). O'r 7,698 o oroeswyr, datgelodd 89% (n=6,845) eu bod yn heterorywiol. Mae Tabl 4 yn cynnig dadansoddiad o gyfeiriadedd rhywiol yn ôl gwasanaeth.

Tabl 4:
Cyfeiriadedd rhywiol goroeswyr yn ymgysylltu â gwasanaethau yn dilyn atgyfeiriad

| | Cymorth lloches | | Cymorth yn y gymuned | | Cymorth trais rhywiol pwrpasol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Deurywiol | 21 | **3%** | 118 | **2%** | 49 | **7%** |
| Hoyw/cyfunrywiol gwrywaidd | 1 | **0%** | 19 | **0%** | 6 | **1%** |
| Lesbaidd/cyfunrywiol benywaidd | 18 | **2%** | 107 | **2%** | 17 | **3%** |
| Heterorywiol | 683 | **91%** | 5,765 | **92%** | 397 | **60%** |
| Arall | 4 | **1%** | 21 | **0%** | 28 | **4%** |
| Dewis peidio dweud | 21 | **3%** | 256 | **4%** | 167 | **25%** |
| **Cyfanswm y sampl** | 748 | **100%** | 6,286 | **100%** | 664 | **100%** |
| Dim data ar gael | 128 | | 4,671 | | 748 | |

## 1.8: Beichiogrwydd a mamolaeth

O'r 12,076 o oroeswyr a ddatgelodd eu bod yn fenywaidd, roedd 3% (n=370) yn feichiog wrth gyrchu gwasanaethau cymorth. Pan edrychwyd ar bob gwasanaeth ar ei ben ei hun, roedd 4% (n=38) o oroeswyr yn cyrchu gwasanaethau cymorth lloches, 3% (n=315) o oroeswyr yn cyrchu gwasanaethau cymorth yn y gymuned a 1% (n=17) o oroeswyr yn cyrchu gwasanaethau cymorth trais rhywiol yn feichig. Yn ogystal, yn y cyfnod adrodd, adroddwyd bod 2% (n=284) o fenywod wedi cael plentyn yn y 12 mis blaenorol.

## 1.9: Iaith

Yn y cyfnod adrodd hwn, pan gofnodwyd iaith, datgelodd (n=7,924), 3% (n=217) o oroeswyr mai'r Gymraeg oedd eu mamiaith. Mae'n werth nodi nad y Gymraeg na'r Saesneg oedd iaith gyntaf 5% (n=377) o oroeswyr.

## 1.10: Priodas a phartneriaeth sifil

Cofnodwyd statws priodasol goroeswyr yn cyrchu gwasanaethau cymorth ar gyfer 46% (n=6,117) o'r holl oroeswyr. Roedd y gyfran uchaf o oroeswyr yn 'sengl' (n=3,083, 50%), ac yna 'wedi gwahanu' (n=1,147, 19%). Ceir dadansoddiad pellach o statws priodasol/partneriaeth sifil yn ôl gwasanaeth yn Nhabl 5.

Tabl 5:
## Statws priod/partneriaeth sifil

| | Cymorth lloches | | Cymorth yn y gymuned | | Cymorth trais rhywiol pwrpasol | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Sengl | 317 | **53%** | 2,560 | **50%** | 206 | **52%** |
| Cyd-fyw | 66 | **11%** | 577 | **11%** | 23 | **6%** |
| Wedi dyweddïo | 4 | **1%** | 24 | **0%** | 5 | **1%** |
| Priod / partneriaeth sifil | 70 | **12%** | 602 | **12%** | 88 | **22%** |
| Wedi gwahanu | 102 | **17%** | 999 | **20%** | 46 | **12%** |
| Wedi ysgaru | 26 | **4%** | 181 | **4%** | 27 | **7%** |
| Gweddw | 2 | **0%** | 16 | **0%** | 4 | **1%** |
| Arall | 9 | **2%** | 163 | **3%** | 0 | **0%** |
| **Cyfanswm y sampl** | 596 | **100%** | 5,122 | **100%** | 399 | **100%** |
| Dim data ar gael | 280 | | 5,835 | | 1,013 | |

# Gwasanaethau cymorth lloches

## 2.1. Atgyfeiriadau a mynediad at wasanaethau


Yn y flwyddyn ariannol hon, cafodd 1,117 o oroeswyr eu cefnogi gan y gwasanaethau cymorth lloches, gyda 97% (n=1,089) o'u plith yn fenywod. O'r 1,999 o oroeswyr a atgyfeiriwyd i'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn ariannol hon, cafodd 44% (n=876) eu cefnogi gan wasanaeth ond nid oedd modd cefnogi 42% (n=848) o oroeswyr am resymau fel dim lle ar gael, diogelwch ac anghenion unigol.

Tabl 6:

Goroeswyr a gafodd eu hatgyfeirio at gymorth lloches ac a'i cyrchodd

| | Menywod | Dynion | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y goroeswyr a gynorthwywyd mewn gwasanaethau lloches yn 2021/22 | 1,809 | 28 | 0 | **1,117** |
| Nifer o atgyfeiriadau newydd a gafwyd yn y cyfnod hwn | 1,928 | 71 | 0 | **1,999** |
| Nifer o oroeswyr a atgyfeiriwyd ac a ymgysylltodd â'r gwasanaeth | 866 | 10 | 0 | **876** |
| Goroeswyr nad oedd modd i'r gwasanaeth eu cefnogi | 799 | 49 | 0 | **848** |
| Nifer o oroeswyr nad oedd am dderbyn cymorth gan y gwasanaeth | 278 | 11 | 0 | **289** |
| Nifer o oroeswyr ar y rhestr aros ar ddiwedd Ch4 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Cyfanswm yr atgyfeiriadau yn dal i gael eu prosesu ar ddiwedd Ch4 | 1 | 1 | 0 | **2** |

Ffigur 2:
Ymgysylltu â gwasanaethau cymorth lloches ledled Cymru[8]




## 2.2. Goroeswyr nad oedd modd eu cefnogi

### Goroeswyr nad oedd modd eu cefnogi mewn lloches

Yn y flwyddyn ariannol hon, gwrthodwyd gwasanaethau cymorth lloches i 42% (n=848) o'r holl atgyfeiriadau newydd. Lle cafodd rheswm am wrthod ei gofnodi (n=805), diffyg lle yn y lloches oedd y rheswm mwyaf cyffredin am wrthod (n=181, 22%), sy'n cyd-fynd â'r data a ddarparwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd anghenion cymorth ychwanegol yn gysylltiedig â chyffuriau ac alcohol yn cyfrif am 17% (n=140) o'r holl resymau dros wrthod ac anghenion cymorth ychwanegol yn gysylltiedig ag iechyd meddwl yn cyfrif am 12% (n=96). Mae'r anghenion hyn yn arbennig o berthnasol oherwydd natur rhai mannau cymunedol mewn sawl lloches a phresenoldeb plant ifanc gyda goroeswyr eraill yn y breswylfa. Mae Tabl 7 yn dangos y nifer o sefydliadau lloches yng Nghymru sydd â'r capasiti i gynnig cymorth i oroeswyr ag anghenion cymorth ychwanegol penodol i amlygu'r rhwystrau ychwanegol a wynebir wrth gyrchu gwasanaethau cymorth.

8 Mae Ffigur 2 yn seiliedig ar 1,999 o atgyfeiriadau; mae'r anghysondeb yn codi am fod atgyfeiriadau'n cael eu gosod ar restrau aros ar draws y flwyddyn ariannol ac felly nid yw'n cyd-fynd â chyfanswm nifer yr atgyfeiriadau newydd a gafwyd yn y chwarter ariannol hwn.

Tabl 7:


Y nifer o sefydliadau cymorth lloches yng Nghymru sy'n derbyn menywod ag anghenion cymorth ychwanegol ar draws 36 o wasanaethau yng Nghymru [9] (Llwybrau at Gymorth, Hydref 2021).

| Anghenion cymorth ychwanegol | Nifer o wasanaethau | % o wasanaethau |
|---|---|---|
| Menywod ag anghenion cymorth iechyd meddwl | 30 | 83% |
| Menywod ag anghenion dibyniaeth cyffuriau | 23 | 64% |
| Menywod ag anghenion dibyniaeth alcohol | 23 | 64% |
| Menywod ar raglen Methadon | 29 | 81% |
| Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus | 13 | 36% |
| Mynediad cadair olwyn | 14 | 39% |

9 Mae'r data hwn yn cynnwys gwasanaethau niferus a allai ddod dan un sefydliad ymbarél

Ffigur 3:


Y rheswm pam nad oedd modd i wasanaethau yng Nghymru gefnogi goroeswyr




## Goroeswyr nad oedd am dderbyn cymorth yn dilyn atgyfeiriad

Yn y flwyddyn ariannol hon, nid oedd 14% (n=289) o'r holl oroeswyr a atgyfeiriwyd (n=1999) at wasanaethau cymorth lloches am dderbyn cymorth, a chofnodwyd y rheswm ar gyfer 96% (n=278) o'r achosion. Y rheswm mwyaf cyffredin a nodwyd oedd 'newid meddwl' (n=112, 40%). Gwerth nodi bod 15% (n=41) o'r goroeswyr an anfodlon symud allan o'r ardal ac roedd 3% (n=8) o oroeswyr yn amharod i adael eu hanifail anwes. Mae'r diffyg llefydd mewn llochesi, fel y nodwyd uchod, wedi effeithio ar argaeledd lloches, oherwydd gallai fod angen i oroeswyr adleoli dros dro sy'n golygu gadael cysur eu cymuned, teulu, gwaith, anifeiliaid anwes a phlant.

Ffigur 4:
Y rheswm pam nad oedd goroeswyr am dderbyn cymorth gan wasanaethau





## 2.3. Ffynonellau atgyfeirio a lleoliad

### Ffynonellau atgyfeirio

Casglwyd y data ar y ffynhonnell atgyfeirio ar gyfer 97% (n=848) o'r holl oroeswyr (n=876) a gyrchodd gymorth yn y flwyddyn ariannol hon. Atgyfeiriadau mewnol (n=213, 25%) a hunan-atgyfeiriadau (n=163, 19% oedd y ddwy ffynhonnell fwyaf cyffredin yn y flwyddyn ariannol hon. I gymharu, atgyfeiriadau mewnol a gwasanaethau 'cam-drin domestig/trais arall yn erbyn menywod' oedd y ddwy ffynhonnell atgyfeirio mwyaf cyffredin yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Mae 'gwasanaethau VAWDASV eraill' yn cyfeirio at sefydliadau allanol yn y sector sydd o bosibl heb gapasiti i gefnogi goroeswyr eu hunain, ac mae 'gwasanaeth mewnol' yn cyfeirio at wasanaeth VAWDASV arall yn cael ei gyflenwi o fewn y sefydliad fel galw heibio neu IDVA. Mae'r ddwy ffynhonnell atgyfeirio yn nodi bod y goroeswr eisoes yn cael cymorth ar gyfer cam-drin domestig ac o ganlyniad wedi'i hasesu gan weithiwr proffesiynol fel rhywun sydd angen cymorth lloches. Mae hwn yn ganfyddiad hanfodol gan ei fod yn dangos mai'r system ehangach cyn cymorth lloches sy'n galluogi ymgysylltu. Pan ddadansoddir y data yn ôl rhyw, y ffynhonnell atgyfeirio fwyaf cyffredin ar gyfer gwrywod (n=10) a ymgysylltodd â'r gwasanaethau cymorth

lloches yn y flwyddyn ariannol oedd drwy'r gwasanaeth tai (awdurdod lleol neu gymdeithas tai) (n=3, 30%) a Gwasanaethau cam-drin domestig/trais yn erbyn menywod eraill (n=3, 30%).

Ffigur 5:
Ffynonellau atgyfeirio goroeswyr yng Nghymru




## Location

Darparodd gwasanaethau arbenigol yng Nghymru wybodaeth ar feysydd atgyfeirio 99% (n=863) o'r holl oroeswyr (n=876) a ymgysylltodd â gwasanaethau cymorth lloches yn y flwyddyn ariannol hon. Gan gyd-fynd â'r data o'r flwyddyn flaenorol, cafodd y gyfran fwyaf o oroeswyr (n=379, 44%) eu cefnogi gan wasanaethau y tu allan i'w hawdurdod lleol (yng Nghymru). Mae'r canfyddiadau hyn yn tanlinellu pwysigrwydd y rhwydwaith genedlaethol o wasanaethau lloches sy'n galluogi goroeswyr i symud ar draws ffiniau awdurdodau lleol i gyrchu cymorth a diogelwch. Mae goroeswyr a'u plant sy'n ffoi rhag cam-drin domestig angen cael mynediad cyflym at y rhwydwaith genedlaethol (a'r DU) o gymorth lloches. Ni fydd goroeswyr bob tro'n cael eu derbyn neu eu hatgyfeirio at lochesi yn yr un ardal oherwydd efallai na fydd capasiti ar y pwynt hwnnw i dderbyn atgyfeiriadau, neu efallai na fydd yn ddiogel iddynt gael eu lletya yn agos at y cyflawnwr/wyr.

Tabl 8:

### Ardal atgyfeirio leol goroeswyr a ymgysylltodd â'r gwasanaethau cymorth lloches


| | Benywod | Gwrywod | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|
| Awdurdod lleol ei hun | 363 | 2 | 365 | **43%** |
| Ardal awdurdod lleol arall yng Nghymru | 373 | 6 | 379 | **44%** |
| Ardal awdurdod lleol arall yn y DU | 117 | 2 | 119 | **14%** |
| Y tu allan i'r DU | 0 | 0 | 0 | **0%** |
| Dim data ar gael | 13 | 0 | 13 | |

## 2.4. Plant goroeswyr mewn cymorth lloches

Oherwydd y fformat y caiff y data hwn ei gasglu ynddo, i osgoi cyfrif dwbl, defnyddir cyfartaledd chwarterol i gynrychioli'r nifer o blant sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaethau cymorth lloches[10]. Roedd gan bymtheg y cant (n=170) o'r holl oroeswyr a gefnogwyd yn y flwyddyn ariannol hon (n=1,117) blant oedd naill ai'n byw gyda nhw yn y lloches (n=120) neu yn rhywle arall (n=50). Gellir hawlio felly bod y gwasanaethau cymorth lloches wedi cefnogi 244 o blant mewn llochesi yn uniongyrchol pob chwarter (Cyfanswm n=976). Lle'r oedd data ar oedran wedi'i gofnodi (n=241), oed mwyaf cyffredin y plant yn y lloches ar gyfartaledd oedd rhwng 0 a 3 oed (n=81, 34%).

Ffigur 6:

### Cyfartaledd oedd plant mewn llochesi





10 Cyfrifir data o'r setiau data chwarterol ar gyfer yr holl blant yn y gwasanaeth. Gan fod plant yn gallu bod yn y gwasanaeth dros chwarteri niferus, defnyddir cyfartaledd chwarterol i gynrychioli'r nifer o blant a gefnogir mewn lloches mewn unrhyw gyfnod i osgoi cyfrif dwbl.

Yn ogystal â'r cyfartaledd o 244 o blant a gefnogwyd gan y gwasanaethau cymorth lloches mewn chwarter, roedd cyfartaledd hefyd o 11 o blant nad oedd yn byw gyda goroeswyr yn y lloches, gyda 36% (n=4) o'r rhain wedi'u cartrefu gyda'r gwasanaethau cymdeithasol a 45% (n=5) gydag aelod arall o'r teulu.

Ffigur 7:

Man preswylio plant na letywyd yn y lloches




## 2.5. Rhyw y Prif Gyflawnwr

Cofnodwyd rhyw y prif gyflawnwr ar gyfer 97% (n=848) o'r holl oroeswyr (n=876) a ymgysylltodd â'r gwasanaethau arbenigol yn y flwyddyn ariannol hon. O'r 848 o oroeswyr lle cofnodwyd rhyw y prif gyflawnwr, roedd 93% (n=791) o'r cyflawnwyr yn wrywod a 7% (n=56) o'r cyflawnwyr yn fenywod. Dangosodd dadansoddiad pellach bod cyflawnwyr gwrywaidd yn gysylltiedig â 94% (n=789) o'r datgeliadau gan oroeswyr benywaidd (n=838).

Tabl 9:

Rhyw y Prif Gyflawnwr


| | Goroeswyr benywaidd | Goroeswyr gwrywaidd | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|
| Cyflawnwr Gwrywaidd | 789 | 2 | 791 | **93%** |
| Cyflawnwr Benywaidd | 48 | 8 | 56 | **7%** |
| Uniaethu fel rhyw arall | 1 | 0 | 1 | **0%** |
| Dim data ar gael | 28 | 0 | 28 | |

## 2.6. Mathau o gam-drin

Gwerth nodi bod goroeswyr yn debygol o brofi dau neu dri math o gam-drin ar gyfartaledd[11]. Cam-drin seicolegol/emosiynol (n=805, 93%) a cham-drin corfforol (n=589, 68%) oedd y ddau fath mwyaf cyffredin o gam-drin a brofwyd gan oroeswyr (n=865). Roedd cyfran sylweddol o oroeswyr hefyd yn profi cam-drin ariannol (n=332, 38%). Ymhellach, roedd 39% (n=332) o fenywod (n=855) a 30% (n=3) o wrywod (n=10) wedi wynebu stelcio ac aflonyddu.

Mae hwn yn ddangosydd sylweddol ar gyfer yr angen am loches i fenywod gan fod y cam-drin yn parhau y tu hwnt i ddiwedd perthynas. Yn ddiweddar, cydnabuwyd rheolaeth drwy orfodaeth a ddiffinnir fel "gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosodiadau, bygythiadau, cywilydd a brawychu neu gamdriniaeth arall a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn eu dioddefwr",[12] fel math parhaus o gam-drin sy'n parhau ar ôl gwahanu[13].

Ffigur 8:
### Mathau o gam-drin a brofwyd gan oroeswyr mewn cymorth lloches





11 Cyfanswm y nifer o fathau o gam-drin wedi'i rannu â chfanswm y goroeswyr a gynhwyswyd yn y set data.
12 CPS, *Cam-drin domestig* [gwefan] https://www.cps.gov.uk/crime-info/domestic-abuse#:~:text=Coercive%20behaviour%20is%3A%20an%20act,punish%2C%20or%20frighten%20their%20victim. [Cyrchwyd 25 Awst 2021].
13 Y Swyddfa Gartref, *Amendment to the controlling or coercive behaviour offence* [gwefan], https://www.gov.uk/government/publications/domestic-abuse-bill-2020-factsheets/amendment-to-the-controlling-or-coercive-behaviour-offence [Cyrchwyd 25 Awst 2021]

## 2.7. Anghenion Cymorth

Mae gan lawer o oroeswyr sy'n cyrchu gwasanaethau cymorth lloches anghenion cymorth ychwanegol (Ffigur 9), fodd bynnag nid yw'r holl wasanaethau'n gallu cofnodi'r data hwn ac felly mae'r data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn debygol o fod yn danamcangyfrif. Ar gyfartaledd, roedd goroeswyr yn debygol o fod angen rhwng un a dau fath gwahanol o gymorth. Cymorth yn gysylltiedig ag iechyd meddwl (n=452, 69%) a chyllid (n=256, 39%) oedd y ddau achos mwyaf cyffredin dros fod angen cymorth ychwanegol yn y flwyddyn ariannol hon. Gwerth nodi bod gan 9% (n=61) o'r goroeswyr a ddatgelodd anghenion cymorth ychwanegol (n=656) anabledd corfforol, fodd bynnag yn ôl cronfa ddata 'Llwybrau at Gymorth' (2021), o'r 37 gwasanaeth cymorth lloches yng Nghymru, dim ond 35% oedd â mynediad cadair olwyn. Yn ogystal, dim ond 11% o lochiesi oedd yn gallu rhoi lle i ofalwr. Mae hyn yn achosi rhwystrau sylweddol i oroeswyr.

Ffigur 9:
Anghenion cymorth ychwanegol goroeswyr mewn cymorth lloches



## 2.8. Atgyfeiriadau cynadleddau asesu risg amlasiantaethol (MARAC)

Caiff goroeswyr yr asesir eu bod â risg uchel o wynebu niwed sylweddol a/neu gael eu lladd gan gyflawnwyr cam-drin domestig eu hatgyfeirio gan y gwasanaethau arbenigol i gynhadledd asesu risg amlasiantaethol (MARAC) – cyfarfod gydag asiantaethau allweddol i drafod opsiynau ar gyfer cynyddu diogelwch y dioeddefwr.

I oroeswyr sy’n byw mewn gwasanaethau cymorth lloches, codnodwyd y nifer o atgyfeiriadau MARAC ac mae’r nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth sydd wedi eu trafod mewn MARAC yn y flwyddyn ariannol hon wedi’i gofnodi. Cafwyd cyfanswm o 220 atgyfeiriad i MARAC, ac o’r rhain roedd 98% (n=216) yn fenywod a’r 2% (n=4) arall yn wrywod. Trafodwyd 238 o oroeswyr mewn MARAC.[14]

## 2.9. Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus: Cymorth lloches

Yn y flwyddyn ariannol hon, atgyfeiriwyd 26 o oroeswyr ‘heb hawl i gyllid cyhoeddus’ at y gwasanaethau cymorth lloches yng Nghymru, gyda 92% (n=24) ohonynt yn cael cefnogaeth gan y gwasanaethau cymorth lloches. Er bod menywod a phlant heb hawl i gyllid cyhoeddus yn dal i allu cyrchu llety lloches a mathau eraill o gefnogaeth, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ganllawiau yn gofyn i awdurdodau lleol gynorthwyo pobl heb hawl i gyllid cyhoeddus i ddod o hyd i nodded a chymorth arall yn ystod y pandemig.[15] Efallai fod hyn wedi arwain at leihad yn yr atgyfeiriadau. I rai goroeswyr, mae eu trwydded preswylio’n galluogi iddynt fyw yn y DU, ond gallai hefyd gynnwys cymal ‘heb hawl i gyllid cyhoeddus’ sy’n rhwystro mynediad at fudd-daliadau, credydau treth, cymorth digartrefedd a/neu dai cymdeithasol.[16]

## 2.10. Symud ymlaen o gymorth arbenigol

### Hyd yr arhosiad

Yn y flwyddyn ariannol hon, gorffennodd cymorth 867 o oroeswyr gan y gwasanaethau cymorth lloches, ac o’r rhain, roedd data ar gael ar gyfer 99.5% (n=863) o oroeswyr. Mae Tabl 10 yn dangos hyd yr amser a dreuliwyd mewn lloches. O’r 863 o oroeswyr y cofnodwyd hyd eu harhosiad, yr hyd mwyaf cyffredin oedd 6 diwrnod neu lai (n=157, 18%).

14 Roedd y nifer o oroeswyr a drafodwyd mewn MARAC yn uwch na’r nifer o atgyfeiriadau gan ei bod yn debygol bod nifer o atgyferiadau heb eu trafod yn chwarter 4 y flwyddyn ariannol flaenorol.
15 Scottish Women’s Rights Centre, *Covid-19 and Support* [Gwefan], https://www.scottishwomensrightscentre.org.uk/news/covid-19coronavirus-info/domestic-abuse-during-covid-19coronavirus-what-can-i-do/. [Cyrchwyd 26/08/2021]
16 Ceir rhestr lawn o’r hyn a ddosberthir yn ‘gyllid choeddus’ ac eithriadau yma: http://www.nrpfnetwork.org.uk/information/Pages/public-funds.aspx.

Tabl 10:

## Hyd arhosiad goroeswyr a adawodd y gwasanaeth


| | Benywod | | Gwrywod | | Cyfanswm goroeswyr | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 diwrnod neu lai | 157 | **19%** | 0 | **0%** | 157 | **18%** |
| 1 - 2 Wythnos | 109 | **13%** | 1 | **7%** | 110 | **13%** |
| 2 - 3 Wythnos | 69 | **8%** | 0 | **0%** | 69 | **8%** |
| 3 - 4 Wythnos | 51 | **6%** | 0 | **0%** | 51 | **6%** |
| 1 - 2 Mis | 125 | **15%** | 4 | **27%** | 129 | **15%** |
| 2 - 3 Mis | 100 | **12%** | 2 | **13%** | 102 | **12%** |
| 3 - 4 Mis | 50 | 6% | 0 | **0%** | 50 | **6%** |
| 4 - 5 Mis | 41 | **5%** | 4 | **27%** | 45 | **5%** |
| 5 - 6 Mis | 38 | **4%** | 3 | **20%** | 41 | **5%** |
| 6-12 Mis | 88 | 10% | 0 | **0%** | 88 | **10%** |
| Dros 12 Mis | 20 | **2%** | 1 | **7%** | 21 | **2%** |
| **Cyfanswm** | **848** | | **15** | | **863** | |

## Rheswm dros symud ymlaen

Cofnodwyd y rheswm dros symud ymlaen ar gyfer 88% (n=764) o oroeswyr yn y cyfnod adrodd hwn. O’r 764 o oroeswyr y cofnodwyd eu rheswm am orffen cymorth lloches, symudodd 17% (n=130) i gartrefi awdurdod lleol/cymdeithas tai parhaol, trosglwyddwyd 16% (n=126) i loches arall a symudodd 14% (n=106) i fyw gyda theulu neu ffrindiau.

Ffigur 10:

## Rheswm am orffen cymorth lloches



# Gwasanaethau cymorth yn y gymuned

## 3.1: Atgyfeiriadau a mynediad at wasanaethau

Cefnogodd gwasanaethau cymorth yn y gymuned yng Nghymru 13,708[17] o oroeswyr yn y gymuned, gyda 92% (n = 12,664) ohonynt yn fenywod. Mae enghreifftiau o wasanaethau cymorth yn y gymuned yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, sesiynau galw heibio, gwaith grŵp, eiriolaeth, cwnsela a chymorth cymheiriaid. Mae'n bwysig nodi bod y ffigur hwn yn debygol o fod yn danamcangyfrif gan fod rhai sefydliadau'n methu ag adrodd eu ffigurau.

Tabl 11:


### Goroeswyr a gafodd eu hatyfeirio at gymorth yn y gymuned ac a'i cyrchodd[18]

| | Benywod | Gwrywod | Arall | Data ar goll | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y goroeswyr a gefnogwyd mewn gwasanaethau cymunedol yn 2021/22 | 12,664 | 883 | 3 | 158 | **13,708** |
| Nifer o atgyfeiriadau newydd a gafwyd yn y cyfnod hwn | 14,610 | 1,219 | 3 | 194 | **16,026** |
| Nifer o oroeswyr a atgyfeiriwyd ac a ymgysylltodd â'r gwasanaeth | 10,031 | 735 | 2 | 189 | **10,957** |
| Goroeswyr nad oedd modd i'r gwasanaeth eu cefnogi | 777 | 119 | 0 | 6 | **901** |
| Nifer o oroeswyr nad oedd am dderbyn cymorth gan y gwasanaeth | 2,720 | 341 | 0 | 6 | **3,067** |
| Nifer o oroeswyr ar y rhestr aros ar ddiwedd Chwarter 4 | 429 | 2 | 1 | 0 | **432** |
| Cyfanswm yr atgyfeiriadau yn dal i gael eu prosesu ar ddiwedd Chwarter 4 | 57 | 0 | 0 | 0 | **57** |

Cafwyd 16,026 o atgyfeiriadau newydd yn ystod y cyfnod hwn. Yn ôl y data a ddarparwyd gan yr aelodaeth genedlaethol o wasanaethau, ymgysylltodd 10,957 o oroeswyr gyda'r gwasanaethau, sy'n ostyngiad o 23% ar y flwyddyn ariannol flaenorol (n = 14,304). At hynny, cafwyd gostyngiad o 55% yn y nifer o oroeswyr na ellid eu cefnogi, a gostyngiad o 47% yn y nifer o oroeswyr nad oeddent am dderbyn cymorth gan wasanaeth.

17 Cyfrifir y cyfanswm a gefnogir gan ddefnyddio'r ffigur cyfanswm yn Ch1, yna pob dechreuwr newydd o Ch2, Ch3 a Ch4 i osgoi cyfrif dwbl.
18 Mae'r anghysondeb o 612 atgyferiad yn *Nhabl 11* yn codi oherwydd atgyferiadau sy'n ymgysylltu â gwasanaethau cymorth yn y gymuned yn y chwarter hwn a allai fod wedi bod ar restrau aros blaenorol.

Ffigur 11:
## Ymgysylltu gyda gwasanaethau cymorth yn y gymuned ledled Cymru[18]




## 3.2: Darpariaeth gwasanaeth i blant a phobl ifanc

Cefnogodd yr aelodaeth genedlaethol o wasanaethau 2,767 o blant yn uniongyrchol, sy'n ostyngiad o 29% ar y flwyddyn ariannol flaenorol. Gall gwasanaethau uniongyrchol a gyrchir gan blant a phobl ifanc gynnwys cwnsela un i un, neu raglenni grŵp wedi'u cynllunio i helpu plant a phobl ifanc i ymdopi â'u profiadau o gam-drin domestig. Yn 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru eu strategaeth VAWDASV 2022-2026[19]. Un amcan yn y strategaeth yw'r nod i "[g]ynyddu ymwybyddiaeth plant, pobl ifanc ac oedolion o bwysigrwydd cydberthnasau diogel, cyfartal ac iach a'u grymuso i wneud dewisiadau personol cadarnhaol".

Yn y flwyddyn ariannol hon, mynychodd 999 o blant hyfforddiant/gweithdai codi ymwybyddiaeth, sy'n gynnydd o 397% ar y flwyddyn ariannol flaenorol.

Tabl 12:
## Cymorth a gyflwynwyd i blant a phobl ifanc


| | Y nifer a gefnogwyd |
|---|---|
| Nifer o blant a gefnogwyd yn uniongyrchol (un i un neu sesiynau teuluol) | **2,767** |
| Cyfanswm y plant a gefnogwyd yn y chwarter hwn drwy godi ymwybyddiaeth (e.e. mewn ysgolion) | **999** |

19 Llywodraeth Cymru, *Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol: strategaeth 2022-2026* [gwefan], https://gov.wales/violence-against-women-domestic-abuse-and-sexual-violence-strategy-2022-2026-html (cyrchwyd 19th Gorffennaf 2022).

## 3.3: Rhyw y prif gyflawnwr

Cofnodwyd rhyw y prif gyflawnwr ar gyfer 77% (n = 8,463) o oroeswyr yn cyrchu gwasanaethau cymorth yn y flwyddyn ariannol hon (cyfanswm n = 10,957). O'r rhain, roedd 91% (n = 7,663) o'r cyflawnwyr yn wrywaidd, sy'n dangos eto natur ryweddol VAWDASV. Ar gyfer goroeswyr benywaidd (n = 7,904), roedd 96% (n = 7,564) o'r cyflawnwyr yn wrywod, gyda'r 4% (n = 340) arall yn fenywod. Ar gyfer goroeswyr gwrywaidd (n = 557), roedd 83% (n = 460) o'r cyflawnwyr yn fenywod a'r 17% (n = 97) arall yn wrywod. Ar gyfer goroeswyr oedd yn uniaethu'n rhyngryw (n = 2), roedd 100% o'r cyflawnwyr yn wrywod (n = 2). Gwerth nodi bod (n = 6,286), 92% (n = 5,765) o'r goroeswyr a ymgysylltodd â'r gwasanaethau cymorth yn y gymuned eleni ac a ddatgelodd eu cyfeiriadedd rhywiol yn uniaethu'n heterorywiol.

Ffigur 12:
Rhyw y prif gyflawnwr





## 3.4: Y mathau o gam-drin a ddatgelwyd

Cofnodwyd y cam-drin a brofwyd gan oroeswyr ar gyfer 69% (n = 7,549) o'r holl oroeswyr newydd a ymgysylltodd â'r gwasanaethau cymorth yn y gymuned yn y flwyddyn ariannol hon (cyfanswm n = 10,957). Fel yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cam-drin seicolegol (n = 4,628, 61%) a cham-drin corfforol (n = 2,679, 35%) oedd y ddau fath mwyaf cyffredin o gam-drin. Yn drawiadol, er gwaethaf gostyngiad o 31% yng nghyfanswm y nifer o oroeswyr y cofnodwyd y wybodaeth hon ar eu cyfer eleni, o'i gymharu â'r llynedd, roedd cynnydd o hyd o 71% yn y nifer o oroeswyr a adroddodd am yr hyn a elwir yn drais ar sail 'anrhydedd', cynnydd o 143% yn y nifer o oroeswyr a adroddodd am y fasnach mewn pobl/caethwasiaeth ddynol, a chynnydd o 88% yn y nifer o oroeswyr a adroddodd am briodas dan orfod.

Ffigur 13:

Cam Mathau o gam-drin a brofwyd gan oroeswyr yn cyrchu gwasanaethau cymorth yn y gymuned[20]





## 3.5: Anghenion cymorth

Cofnodwyd anghenion cymorth ychwanegol ar gyfer 68% (n = 7,475) o'r holl oroeswyr a gyrchodd wasanaethau cymorth yn y gymuned yn y flwyddyn ariannol hon (n = 10,957). Fel yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, adroddodd gwasanaethau mai'r angen pennaf oedd gan oroeswyr oedd anabledd yn gysylltiedig ag iechyd meddwl, a ddatgelwyd gan 39% (n = 2,901) o oroeswyr. Yn dilyn hyn roedd yr angen am gymorth cyfreithiol, a ddatgelwyd gan 20% (n = 1,469) o oroeswyr a chymorth ariannol, a ddatgelwyd gan 11% (n = 853) o oroeswyr eleni. Mae'r data hwn yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r flwyddyn ariannol flaenorol.

20 Gwahaniaeth o 8 goroeswr yn sgil goroeswyr na chofnodwyd eu rhyw

Ffigur 14:
## Anghenion cymorth ychwanegol mewn gwasanaethau cymorth yn y gymuned




## 3.6: Diogelu ac Atgyfeiriadau Cynadleddau Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC)

Caiff goroeswyr yr asesir eu bod â risg uchel o wynebu niwed sylweddol a/neu gael eu lladd gan gyflawnwyr cam-drin domestig eu hatgyfeirio gan y gwasanaethau arbenigol i gynhadledd asesu risg amlasiantaethol (MARAC). Cyfarfod gydag asiantaethau allweddol yw hwn i drafod opsiynau ar gyfer cynyddu diogelwch y dioddefwr. Yn 2021/22, gwnaed 770 o atgyfeiriadau MARAC, a thrafodwyd 1,378 o oroeswyr mewn MARAC. Er bod atgyfeiriadau MARAC yn gallu cael eu gwneud gan wasanaethau VAWDASV cymunedol, gall atgyfeiriadau hefyd ddod o sefydliadau

eraill, sy'n golygu bod goroeswyr yn cael eu trafod mewn cyfarfodydd heb gyfeirio'n uniongyrchol at y gwasanaeth. Gwerth nodi bod gostyngiad o 82% yn y nifer o atgyfeiriadau a wnaed i MARAC o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol a gostyngiad o 30% yn y nifer o oroeswyr a drafodwyd mewn MARAC yn y flwyddyn ariannol hon.

# Gwasanaethau trais rhywiol

## 4.1: Atgyfeiriadau a mynediad at wasanaethau

Datgelodd data atgyfeirio gan wasanaethau cymorth trais rhywiol pwrpasol bod cyfanswm o 2,164 o oroeswyr [21] wedi derbyn cymorth dros flwyddyn ariannol 2021/22, sy'n cynrychioli cynnydd o 61% o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol. O'r 2,164 o oroeswyr, roedd 85% (n = 1,836) yn fenywod, 14% (n = 303) yn wrywod, roedd 1% (n = 17) yn uniaethu'n rhyngryw, ac roedd data ar goll ar gyfer y <1% o oroeswyr (n = 8) eraill.


Tabl 13:

### Goroeswyr a gafodd eu hatgyfeirio at gymorth trais rhywiol ac a'i cyrchodd

| | Menywod | Gwrywod | Arall | Data ar goll | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y goroeswyr a gefnogwyd yn y flwyddyn ariannol hon 2021/22 | 1,836 | 303 | 17 | 8 | **2,164** |
| Nifer o atgyfeiriadau newydd a gafwyd yn y cyfnod hwn | 1,439 | 256 | 16 | 8 | **1,719** |
| Nifer o oroeswyr a atgyfeiriwyd ac a ymgysylltodd â'r gwasanaeth | 1,179 | 213 | 12 | 8 | **1,412** |
| Goroeswyr nad oedd modd i'r gwasanaeth eu cefnogi | 71 | 16 | 0 | 0 | **87** |
| Nifer o oroeswyr nad oedd am dderbyn cymorth gan y gwasanaeth | 34 | 6 | 0 | 0 | **40** |
| Nifer o oroeswyr ar y rhestr aros ar ddiwedd Ch4 | 175 | 22 | 2 | 0 | **199** |
| Cyfanswm yr atgyfeiriadau yn dal i gael eu prosesu ar ddiwedd Ch4 | 24 | 3 | 0 | 0 | **27** |

Ffigur 15:

### Ymgysylltu â gwasanaethau trais rhywiol pwrpasol [22]




21 Cyfrifir y cyfanswm a gefnogir gan ddefnyddio'r ffigur cyfanswm yn Ch1, yna pob dechreuwr newydd o Ch2, Ch3 a Ch4 i osgoi cyfrif dwbl.
22 Mae ffigur 15 yn seiliedig ar 1,738 o atgyfeiriadau; mae'r anghysonder yn codi oherwydd atgyferiadau yn cael eu gosod ar restrau aros ar draws y flwyddyn ariannol.


## 4.2: Ffynonellau atgyfeirio

### Ffynonellau atgyfeirio

Yn y flwyddyn ariannol hon, cofnodwyd y ffynhonnell atgyfeirio ar gyfer 60% (n = 847) o oroeswyr a gyrchodd wasanaethau trais rhywiol (cyfanswm n = 1,412). O'r 847 o oroeswyr, hunan-atgyfeirio oedd y ffynhonnell fwyaf cyffredin a ddatgelwyd (31%, n = 264), sy'n dilyn y duedd a welwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Yn dilyn hyn roedd 'arall' (19%, n = 157) ac yna'r gwasanaeth iechyd (13%, n = 112). Yn debyg i'r flwyddyn ariannol ddiwethaf, ni chafwyd unrhyw atgyfeiriadau drwy MARAC a gwnaed llai na 1% o atgyfeiriadau (n = 7) drwy'r gwasanaeth prawf.

Ffigur 16:


Ffynonellau atgyfeirio at wasanaethau trais rhywiol yng Nghymru



## 4.3: Rhyw y prif gyflawnwr

Cofnodwyd rhyw y prif gyflawnwr ar gyfer 44% (n = 618) o'r holl oroeswyr a gyrchodd wasanaethau trais rhywiol yn y flwyddyn ariannol hon (n = 1,412). O'r 558 o oroeswyr benywaidd lle'r oedd cofnod o ryw'r cyflawnwr, roedd 97% (n = 540) yn wrywod a'r 3% (n = 18) arall yn fenywod. I oroeswyr gwrywaidd (n = 57), roedd 88% (n = 50) o'r cyflawnwyr yn wrywod a'r 12% (n = 7) arall yn fenywod. O'r 3 goroeswr oedd uniaethu'n rhyngryw, roedd 67% (n = 2) o'r cyflawnwyr yn wrywod a'r 13% (n = 1) arall yn fenywod.

Ffigur 17:
Rhyw y prif gyflawnwr





## 4.4: Mathau o gam-drin a ddatgelwyd

Cofnodwyd y math o gam-drin a brofwyd gan oroeswyr yn y flwyddyn ariannol hon ar gyfer 99.5% (n = 1,406) o oroeswyr a ymgysylltodd â'r gwasanaethau cymorth trais rhywiol yn y flwyddyn ariannol hon (cyfanswm n = 1,412). Fel yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, cam-drin rhywiol oedd y ffurf mwyaf cyffredin o gam-drin i gael ei ddatgelu gan oroeswyr (99%, n = 1,392), ac yna gam-drin seicolegol/emosiynol (18%, n = 249), a cham-drin corfforol (10%, n = 138).

Ffigur 18:

Mathau o gam-drin a ddatgelwyd gan oroeswyr [23]





## 4.5: Anghenion gofal

Cofnodwyd data'n ymwneud ag anghenion cymorth ychwanegol goroeswyr ar gyfer 92% (n = 1,292) o'r holl oroeswyr a ymgysylltodd â'r gwasanaethau cymorth trais rhywiol eleni (n = 1,412). Cymorth iechyd meddwl oedd yr angen ychwanegol a ddatgelwyd yn fwyaf cyffredin gan oroeswyr yn y cyfnod adrodd hwn (77%, n = 999), ac yna feddyliau am hunanladdiad (27%, n = 345) a hunan-niweidio (25%, n = 318). Yn unol â chanfyddiadau'r blynyddoedd ariannol blaenorol, roedd y gyfran o oroeswyr ag anghenion cymorth ychwanegol yn ymwneud â meddwl am hunanladdiad a hunan-niweidio yn parhau'n uwch i'r rheini oedd yn cyrchu gwasanaethau cymorth trais rhywiol (27% a 25% yn eu tro) nag i'r goroeswyr oedd yn cyrchu lloches (10% a 12% yn eu tro) a gwasanaethau cymorth yn y gymuned (4% a 3% yn eu tro).

23 Gwahaniaeth o 8 goroeswr yn sgil goroeswyr na chofnodwyd eu rhyw

Ffigur 19:
## Anghenion cymorth ychwanegol goroeswyr [24]




24 Gwahaniaeth o 8 goroeswwr yn sgil goroeswyr na chofnodwyd eu rhyw

# Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Cyllidir Llinell Gymorth Byw Heb Ofn gan Lywodraeth Cymru, ac fe'i sefydlwyd gan Cymorth i Ferched Cymru yn 2004 fel Llinell Gymorth Cam-drin Domestig i Gymru Gyfan. Mae'r llinell gymorth yn wasanaeth cyfrinachol am ddim sydd ar gael i unrhyw berson sydd â phrofiad uniongyrchol neu anuniongyrchol o gam-drin domestig, trais rhywiol, a/neu drais yn erbyn menywod. Mae'r llinell hefyd yn cefnogi pobl eraill sy'n bryderus, gweithwyr proffesiynol ac asiantaethau 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos.

## 5.1: Nifer y cysylltiadau

Rhwng Ebrill 1 2021 a Mawrth 31 2022, derbyniodd Llinell Gymorth Byw Heb Ofn 35,491 o gysylltiadau: 31,127 galwad, 657 ebost, 3,249 sgwrs gwe a 458 neges destun. Yn gyffredinol, roedd cynnydd o 18% yng nghyfanswm y cysylltiadau o'u cymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol (cyfanswm cysylltiadau = 30,063). Roedd cynnydd o 40% mewn cysylltiadau uniongyrchol gan oroeswyr, cynnydd o 31% mewn cysylltiadau gan bobl eraill pryderus, a chynnydd o 41% mewn cysylltiadau gan weithwyr proffesiynol. Ers 2020-21, mae'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn wedi profi:

- 16% o gynnydd yn y nifer o alwadau
- 51% o gynnydd yn y nifer o negeseuon ebost
- 34% o gynnydd yn y nifer o sgyrsiau gwe
- 18% o gynnydd yn y nifer o negeseuon testun

Tabl 14:

### Nifer y cysylltiadau a dderbyniwyd gan y Llinell Gymorth – cymhariaeth dros ddwy flynedd

| | Cyfansymiau blynyddol (21-22) | Cyfansymiau blynyddol (20-21) | Gwahaniaeth (%) |
|---|---|---|---|
| Galwadau | 31,127 | 26,817 | 16% |
| Negeseuon ebost | 657 | 435 | 51% |
| Sgwrsio gwe | 3,249 | 2,424 | 34% |
| Negeseuon testun | 458 | 387 | 18% |
| **Cyfanswm** | **35,491** | **30,063** | **18%** |

Y llynedd, adroddwyd cynnydd o 84% yn y dulliau 'tawel' o gysylltu oedd yn cyd-fynd â chyfyngiadau clo COVID-19. Mae'r patrwm hwn wedi parhau drwy gydol y flwyddyn, gyda chynnydd pellach o 34% yn y nifer o gysylltiadau ebost, sgwrsio gwe a neges destun o'u cymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn unol â hynny, er nad oedd newid yn hyd galwadau ar gyfartaledd eleni via (4.94 munud), roedd cynnydd o 9% yn hyd sgwrs gwe ar gyfartaledd, yn codi o 14.28 munud y llynedd i 15.66 munud eleni. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn dangos nad oes unrhyw arwydd bod effeithiau COVID-19 ar bob math o VAWDASV yn lleihau.

Tabl 15:

### Nifer y galwadau i'r Llinell Gymorth Byw Heb Ofn (Ebrill 2021-Mawrth 2022)

| | 2021-2022 | 2020-2021 | Gwahaniaeth (%) |
|---|---|---|---|
| 2021 | | | |
| Ebrill | 2,382 | 1,916 | 24% |
| Mai | 2,490 | 2,055 | 21% |
| Mehefin | 2,794 | 2,070 | 35% |
| Gorffennaf | 2,912 | 2,534 | 15% |
| Awst | 2,782 | 2,325 | 20% |
| Medi | 2,630 | 2,555 | 3% |
| Hydref | 2,569 | 2,271 | 13% |
| Tachwedd | 2,357 | 1,903 | 24% |
| Rhagfyr | 2,734 | 2,102 | 30% |
| 2022 | | | |
| Ionawr | 2,434 | 2,313 | 5% |
| Chwefror | 2,470 | 2,054 | 20% |
| Mawrth | 2,573 | 2,719 | -5% |
| **Cyfanswm** | **31,127** | **26,817** | **16%** |

## 5.2: Gwybodaeth am y rhai sy'n galw

Lle bo'n bosibl, caiff y math o alwr ei gofnodi gan y Llinell Gymorth Byw Heb Ofn. Oherwydd natur sensitif a chyfrinachol y gwasanaeth, gall rhai galwyr ei chael yn anodd trafod eu profiadau ac felly byddant yn terfynu'r alwad cyn cyrraedd Eiriolwr Cymorth y Llinell Gymorth. Mewn amgylchiadau eraill, gall Eiriolwyr Cymorth y Llinell Gymorth fod yn derbyn galwad arall, neu gall mathau eraill o alwadau amharu ar y llinellau fel galwadau profi gan alwyr maleisus a sarhaus. Yn 2021-22, cofnodwyd proffil galwyr ar gyfer 26,532 (85%) o'r holl alwadau a wnaed i'r Llinell Gymorth. O'r rhain:

- roedd 13,007 (49%) gan oroeswyr yn profi cam-drin yn uniongyrchol
- roedd 1,176 (4%) gan bobl eraill bryderus
- roedd 35 (<1%) gan gyflawnwyr
- roedd 10,953 (41%) gan asiantaethau eraill
- doedd 1,361 (5%) ddim yn gysylltiedig â VAWDASV

Tabl 16:

### Math o alwyr unigryw – cymhariaeth dros ddwy flynedd

| | 2021/2022 | 2021/2022 | Gweahaniaeth (%) |
|---|---|---|---|
| Goroeswyr yn profi cam-drin yn uniongyrchol | 13,007 | 9,266 | 40% |
| Gweithwyr proffesiynol yn cysylltu ar ran goroeswyr | 10,953 | 7,748 | 41% |
| Galwadau gan bobl eraill bryderus | 1,176 | 899 | 31% |
| Galwadau gan gyflawnwyr | 35 | 51 | -31% |
| Ddim yn gysylltiedig â VAWDASV | 1,361 | 885 | 54% |
| **Cyfanswm** | **26,532** | **18,849** | |


Eleni, roedd galwadau a wnaed i'r Llinell Gymorth gan oroeswyr yn profi cam-drin yn uniongyrchol yn cyfrif am 49% (n = 13,007) o'r holl alwadau a gofnodwyd. Mae hyn yn 40% o gynnydd yn y nifer o alwadau a gafwyd gan oroeswyr o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol (2020-21 n = 9,266). Lle bo'n bosibl, cofnodwyd data demograffig goroeswyr. Datgelodd y data a gasglwyd bod 87% (n = 11,248) o'r goroeswyr yn fenywod, 10% (n = 1,254) yn wrywod a chategoreiddiwyd y 4% (n = 500) arall yn anhysbys.

Cafodd y Llinell Gymorth 1,176 o alwadau gan bobl eraill bryderus, sy'n gynnydd o 31% ar y flwyddyn ariannol flaenorol. Roedd hyn yn cyfrif am 4% o'r holl alwadau a gofnodwyd i'r Llinell Gymorth yn 2021-22.

Gwnaed 35 o alwadau i'r Llinell Gymorth gan gyflawnwyr cam-drin, sy'n ostyngiad o 31% o'r flwyddyn flaenorol. Lle bo'n briodol, caiff cyflawnwyr cam-drin eu cyfeirio at linell ffôn Respect ar gyfer cyflawnwyr a rhoddir gwybodaeth iddynt am raglenni cymunedol achrededig lleol.

Yn olaf, cafwyd cynnydd o 41% mewn galwadau gan weithwyr proffesiynol yn cysylltu ar ran goroeswyr (n = 10,953) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (n = 7,748).

Ffigur 40:
Y math o bobl sy'n galw'r Llinell Gymorth




## 5.3: Cefnogi plant a phobl ifanc

Rhwng Ebrill 1 2021 a Mawrth 31 2021, adroddodd 4,570 o oroeswyr oedd yn profi cam-drin bod ganddynt blant, ac felly gellir hawlio bod y Llinell Gymorth wedi cefnogi rhieni tua 8,608 o blant[25] (gweler Tabl 6). Yn ogystal, galwodd 34 o blant a phobl ifanc (galwadau gan bobl dan 18 oed) Linell Gymorth Byw Heb Ofn yn uniongyrchol. Mae hyn yn gynnydd o 10% ar y flwyddyn ariannol flaenorol (2020/21).

25 Mae hwn yn ddata a amcangyfrifwyd yn seiliedig ar gyfartaledd y nifer o blant ym mhob teulu yn y DU (1.91) wedi'i luosi â'r nifer o gysylltiadau lle'r oedd y wybodaeth hon yn anhysbys.

Tabl 6:
Y nifer o oedolion ac amcangyfrif o'r nifer o blant a gefnogwyd

| | Goroeswyr oedolion | % o oedolion | Nifer o Blant |
|---|---|---|---|
| 1 plentyn | 1,662 | 36% | 1,662 |
| 2 blentyn | 1,042 | 23% | 2,084 |
| 3 phlentyn | 458 | 10% | 1,374 |
| 4 plentyn | 205 | 4% | 820 |
| 5 plentyn | 71 | 2% | 355 |
| 6 phlentyn | 17 | 0% | 102 |
| 7+ plentyn | 16 | 0% | 112 |
| Anhysbys | 1,099 | 24% | 2,099* |
| **Cyfanswm** | **4,570** | | **8,608** |

*Cyfrifwyd ar 1.91 plentyn i bob oedolyn.[26]

## 5.4: Cyfeirio ac atgyfeirio at asiantaethau eraill

Cyfeiriodd neu atgyfeiriodd y Llinell Gymorth 10,296 o unigolion, sy'n gynnydd o 25% ar y flwyddyn flaenorol (n = 8,209). Mae hyn yn cynnwys atgyfeiriadau at asiantaethau eraill am gymorth i oroeswyr yn ymwneud er enghraifft â phroblemau arian, gwasanaethau cyswllt plant, cam-drin alcohol a sylweddau, gwasanaethau cymorth i wrywod, cymorth i ddioddefwyr a thystion, y GIG, a grwpiau cymorth hunan-niweidio.

26 ONS, Childbearing for women born in different years, England and Wales: 2015 (2016).


Tabl 7:

Nifer o atgyfeiriadau i asiantaethau eraill

| Atgyfeiriadau | Nifer o atgyfeiriadau | % o atgyfeiriadau |
|---|---|---|
| Lloches Frys (Uniongyrchol ac Anuniongyrchol) | 2310 | 2,084 |
| Lletya Brys | 1569 | 1,374 |
| Yr Heddlu | 1315 | 820 |
| Opsiynau Cyfreithiol | 773 | 355 |
| Cwnsela | 508 | 102 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 405 | 112 |
| Gwasanaethau Cymorth Teulu a Phlant | 287 | 2,099* |
| Gwasanaethau Cymorth Trais a Cham-drin Rhywiol | 466 | |
| Asiantaethau Eraill | 2663 | |
| **Cyfanswm** | **10296** | |

Ffigur 21:

Dadansoddiad o atgyfeiriadau a wnaed gan y Llinell Gymorth



## 5.5: Adborth defnyddwyr

Lle bo'n briodol, bydd Eiriolwyr Cymorth y Llinell Gymorth yn gofyn am adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth. Dylid nodi fodd bynnag oherwydd parhad pandemig COVID-19 eleni, bod Eiriolwyr Cymorth y Llinell Gymorth wedi bod yn gweithio gartref yn bennaf ac felly mae derbyn adborth yn gynyddol anodd. Er mwyn annog adborth gonest, nid yw Eiriolwyr Cymorth y Llinell Gymorth yn gyfrifol am gasglu eu hadborth eu hunain. Er bod y broses hon yn llwyddiannus yn y swyddfa, mae'n broses sydd wedi dod yn fwy heriol wrth weithio gartref. Yn y flwyddyn ariannol hon, ni chafwyd unrhyw gwynion yn erbyn y Llinell Gymorth am y gwasanaethau a dderbyniwyd.

## 5.6: Adborth gan oroeswyr a phobl eraill bryderus

Rhoddodd 203 o ddefnyddwyr gwasanaeth adborth i'r Llinell Gymorth yn ystod y flwyddyn. Datgelodd yr adborth wellant mewn sawl canlyniad yn dilyn cysylltu â'r Llinell Gymorth:

- Adroddodd cyfartaledd o 85% o oroeswyr well ymdeimlad o ddiogelwch
- Adroddodd cyfartaledd o 84% o oroeswyr welliant yn eu llesiant emosiynol
- Adroddodd cyfartaledd o 85% o oroeswyr leihad o ran trais, risg a cham-drin
- Ar gyfartaledd, datgelodd 100% o oroeswyr eu bod wedi cyrchu gwybodaeth a chyngor a'u galluogodd i wneud dewisiadau gwybodus
- Ar gyfartaledd, adroddodd 100% o ddefnyddwyr gwasanaeth eu bod wedi'u hatgyfeirio at y gwasanaethau cymorth priodol

Cyflwynir sampl ar hap o'r adborth ansoddol a gafwyd gan oroeswyr a phobl eraill bryderus yn y flwyddyn ariannol hon isod:

"Diolch am fod mor garedig gyda fi. Mae'n golygu llawer."

"Cyn sgwrsio gyda'r gweithiwr ar sgwrs gwe yn gynharach, doeddwn i ddim wedi sylweddoli y gallai hyn fod yn gam-drin domestig. Mae gen i'r wybodaeth a'r rhifau sydd eu hangen i gael cymorth, ond roeddwn i'n awyddus i siarad am bethau eto os yw hynny'n iawn? Roedd y gweithiwr yn gynharach yn gymaint o help. Doeddwn i ddim wedi sylweddoli nad fy mai i oedd y pethau hyn"

"Mae wedi normaleiddio pethau … fyddwn i ddim wedi teimlo mor barod am y cwnsela heb hyn. Rydych chi'n gwrando arnaf i; dydych chi ddim yn edrych am symptom."

"Rwy mor ddiolchgar am eich ateb gan ei fod wedi rhoi trefn ar fy meddwl bod hyn yn gam-drin a rheolaeth drwy orfodaeth."

"Rydych chi wedi rhoi awgrymiadau da i fi … Mae'r alwad hon wedi bod yn llawer mwy o help nag allwn i fod wedi'i ddychmygu."

"Pryd dyfodd eich adenydd angel?"- dywedodd y galwr gan ddiolch i fi am y wybodaeth a dweud ei fod wedi cael llawer mwy o help nag oedd yn ei ddisgwyl.

"Rydych chi wedi bod yn help mawr ac yn empathig.' 'Rydych chi mewn proffesiwn hynod o werthfawr ac arbennig... i bobl deimlo'n rhydd i siarad yn hyderus am bethau sy'n tabŵ..' 'Gobeithio os bydd unrhyw beth yn digwydd i chi, y byddwch chi'n gallu dod o hyd i rywun i wrando fel y gwrandawoch chi arnaf i.' 'Rwyf i mor falch eich bod chi yna, ac rwy'n eich caru chi am fod."

## 5.7: Adborth asiantaethau eraill

Yn ogystal â'r adborth a gafwyd gan oroeswyr, mae Llinell Gymorth Byw Heb Ofn hefyd yn casglu adborth gan asiantaethau eraill, a cheir detholiad bach isod at ddibenion dangosol.

"Rydych chi'n gwneud job wych yn cadw pawb yn ddiogel."

"Rwy'n argymell gwasanaeth Byw Heb Ofn yn fawr i bobl eraill. Bob tro rwyf i wedi galw mae'r staff wedi bod yn hynod o ddymunol a chymwynasgar. Mae'r ffordd y mae staff yn ymateb i'ch galwad yn wych, bob amser yn hynod o gyfeillgar a pharod eu cymwynas. Diolch am eich cefnogaeth bob tro rwyf i wedi galw, rydych chi i gyd yn rhyfeddol!"

"Diolch am y diweddariad – yn ôl yr arfer rwy'n gwerthfawrogi eich cefnogaeth garedig i'n cleientiaid, mae'n wych gwybod bod cleientiaid yn gallu galw 24/7 gan wybod y byddan nhw'n siarad gyda rhywun hyfryd, pan fydd ei angen - Diolch."

"Diolch am eich gwaith, rydych chi wir yn cefnogi ein gwasanaeth drwy helpu ein dinasyddion sy'n ffoi rhag cam-drin domestig."

"Diolch yn fawr iawn iawn am yr isod. Mae gen i sawl haearn yn y tân nawr!"

# Atodiadau

## Atodiad 1: Gwasanaethau arbenigol – darpariaeth gwasanaeth

| | Sefydliad | Gwasanaeth | Gwasanaeth Lloches | | | | Gwasanaeth Cymunedol | | | | Gwasanaeth Trais Rhywiol | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 | Ch1 | Ch2 | Ch3 | Ch4 |
| 1 | Gwasanaeth Cam-drin Domestig Aberconwy | Gwasanaeth Cam-drin Domestig Aberconwy | IE | IE | IE | IE | IE | IE | IE | IE | | | | |
| 2 | Atal Y Fro | Atal Y Fro | IE | IE | IE | IE | IE | IE | IE | IE | | | | |
| 3 | Calan DVS | Calan DVS - Rhydaman | IE | IE | IE | IE | IE | IE | IE | IE | | | | |
| | | Calan DVS - Pen-y-bont | | | | | | | | | | | | |
| | | Calan DVS - Castell Nedd Port Talbot | | | | | | | | | | | | |
| | | Calan DVS- De Powys | | | | | | | | | | | | |
| 4 | Cymorth i Ferched Caerdydd | Cymorth i Ferched Caerdydd | IE | IE | IE | NA | IE | IE | IE | NA | | | | |
| 5 | Gwasanaethau Cam-drin Domestig Caerfyrddin | Gwasanaethau Cam-drin Domestig Caerfyrddin | IE | IE | IE | IE | IE | IE | IE | IE | | | | |
| 6 | Cymorth i Ferched Cymdeithas Tai Clwyd Alyn (CAHA) | Cymorth i Ferched CAHA | IE | IE | NA | IE | IE | NA | NA | IE | | | | |
| 7 | Cymorth i Ferched Cyfannol | Cymorth i Ferched Cyfannol (Sir Fynwy) | IE | IE | IE | IE | IE | IE | IE | NA | IE | IE | IE | IE |
| | | Cymorth i Ferched Cyfannol (Torfaen) | | | | | | | IE | IE | | | | |
| | | Cymorth i Ferched Cyfannol (Blaenau Gwent) | | | | | | | IE | IE | | | | |
| | | Cymorth i Ferched Cyfannol (Casnewydd) | | | | | | | NA | IE | | | | |
| 8 | DASU Gogledd Cymru | Cymorth i Ferched Bae Colwyn | IE | IE | IE | NA | IE | IE | NA | NA | | | | |
| | | Cymorth i Ferched Sir y Fflint | | | | | | | | | | | | |
| | | Cymorth i Ferched Dinbych | | | | | | | | | | | | |
| | | Cymorth i Ferched y Rhyl | | | | | | | | | | | | |
| | | Cymorth i Ferched Wrecsam | | | | | | | | | | | | |
| 9 | Gorwel | Gorwel (Lloches) | IE | IE | IE | NA | | | | | | | | |
| | | Gorwel (Cymuned) | | | | | NA | IE | IE | NA | | | | |
| | | Gorwel (Gwasanaethau Plant) | | | | | IE | IE | NA | NA | | | | |
| | | Gorwel (IDVA) | | | | | IE | IE | NA | NA | | | | |
| 10 | Canolfan Argyfwng Teulu Sir Feirionydd | Canolfan Argyfwng Teulu Sir Feirionydd | IE | IE | NA | IE | IE | IE | NA | NA | | | | |
| 11 | RASASC Gogledd Cymru | RASASC Gogledd Cymru | | | | | | | | | IE | IE | IE | IE |
| 12 | Cymorth i Ferched Rhondda Cynon Taf | Cymorth i Ferched Rhondda Cynon Taf | IE | IE | IE | IE | IE | IE | IE | NA | | | | |
| 13 | Merthyr Diogelach | Merthyr Diogelach | | | | | IE | IE | IE | IE | | | | |
| 14 | Cymru Ddiogelach | Cymru Ddiogelach | | | | | | | | | | | | |
| 15 | Cerrig Camu Gogledd Cymru | Cerrig Camu Gogledd Cymru | | | | | | | | | NA | IE | IE | IE |
| 16 | Cymorth i Ferched Abertawe | Cymorth i Ferched Abertawe | IE | IE | IE | IE | IE | IE | IE | IE | IE | IE | IE | IE |
| 17 | Threshold DAS (Llanelli) | Threshold DAS (Llanelli) | IE | IE | IE | IE | | | | | | | | |
| 18 | Cymorth i Ferched Thrive | Cymorth i Ferched Thrive | IE | IE | NA | NA | IE | IE | NA | NA | | | | |
| 19 | Cymorth i Ferched Gorllewin Cymru | Cymorth i Ferched Gorllewin Cymru | IE | IE | IE | IE | IE | IE | IE | IE | | | | |
| | | | **15** | **15** | **12** | **11** | **14.7** | **14** | **11.08** | **8.75** | **3** | **4** | **4** | **4** |

## Atodiad 2: Methodoleg

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn casglu data i gael trosolwg cenedlaethol a rhanbarthol o'r ddarpariaeth gwasanaeth a'r galw am gymorth, ac i gefnogi gwasanaethau arbenigol gyda chasglu data rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r data'n cyfrannu at nodi tueddiadau a phatrymau fydd yn llywio gwaith polisi ac ymgyrchu a thrwy hynny yn y pen draw bydd yn fanteisiol i'r ffederasiynau a'r goroeswyr. Yn absenoldeb darlun cenedlaethol cadarn, caiff effaith y gwaith ei leihau.

Bob chwarter, yn unol â'u cytundeb partneriaeth gyda Cymorth i Ferched Cymru, mae aelod-wasanaethau yn cwblhau ffurflenni casglu data Cymorth i Ferched Cymru a gaiff eu cyfuno'n flynyddol i ddarparu trosolwg blynyddol.

Mae Ffurflen Casglu Data Cymorth i Ferched Cymru (2020/21) yn gofyn am ddata yn yr adrannau canlynol:

| Adran | Gwybodaeth a geisir |
|---|---|
| Trosolwg Aelodau | Manylion cyswllt a gwasanaeth (h.y. nifer o unedau, rhaglenni a gyflwynir, mathau o gymorth ac ati). |
| Nodweddion Gwarchodedig | Y nifer o oroeswyr mewn gwasanaethau lloches a chymunedol, yn ôl nodweddion gwarchodedig (oed, rhywedd, crefydd/cred ac ati) |
| Lloches | Data ynghylch y nifer o oroeswyr sydd wedi cyrchu gwasanaethau lloches. |
| Cymorth yn y Gymuned | Data ynghylch y nifer o oroeswyr sydd wedi cyrchu gwasanaethau cymunedol |
| Gwasanaethau Trais Rhywiol | Data ynghylch y nifer o oroeswyr sydd wedi cyrchu gwasanaethau trais rhywiol pwrpasol. |

Dadansoddir y gyfres o geisiadau data ymhelwch yn ôl y 'math o oroeswr'.

| Math o oroeswr | Disgrifiad |
|---|---|
| 'Cyfanswm a gefnogir' | Cyfanswm y goroeswyr a gefnogir yn y cyfnod, sy'n cynnwys goroeswyr a ddechreuodd yn y cyfnod hwnnw a'r rhai sydd mewn gwasanaeth parhaus o gyfnod blaenorol. |
| 'Dechreuwyr' | Goroeswyr a gafodd eu hatgyfeirio a'u derbyn i'r gwasanaeth yn ystod y cyfnod hwnnw'n unig. |
| 'Ymadawyr' | Goroeswyr a adawodd y gwasanaeth/daeth y gefnogaeth i ben yn ystod y cyfnod hwnnw. |
| 'Heb ddechrau' | Goroeswyr na dderbyniwyd gan y gwasanaeth neu nad oedd am dderbyn y cymorth a gynigiwyd gan y gwasanaeth. |

## Atodiad 3: Geirfa Termau

| Term | Diffiniad |
|---|---|
| MARAC: | Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaethol (MARAC) yw cyfarfod rheoli risg sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr ym mhresenoldeb yr holl asiantaethau allweddol, lle caiff goroeswyr a aseswyd eu bod mewn risg uchel o niwed gan gyflawnwyr cam-drin domestig eu hatgyfeirio a chytunir ar gynlluniau diogelwch amlasiantaethol i leihau'r risg a osodir gan y cyflawnwr. |
| Uned Lloches: | Un ystafell deuluol mewn lloches gymunedol neu hunangynhwysol. |
| Uned wasgaredig: | Ystafell deuluol/llety mewn lleoliad ar wahân i'r lloches gymunedol neu hunangynhwysol. Fel arfer, lle mae gwasanaethau'n cynnig cymorth i oroeswyr gwrywaidd yn ogystal â goroeswyr benywaidd, byddent yn cael eu cefnogi ar wahân mewn unedau gwasgaredig. |
| Uned symud ymlaen: | Llety dros dro a ddarperir gan y gwasanaeth i ffwrdd oddi wrth y lloches, sydd â chyfnod aros cyfyngedig, ac a gyrchir yn dilyn lloches a chyn byw'n annibynnol. Fel arfer mae 'unedau symud ymlaen' yn fflatiau stiwdio neu ystafelloedd gwely mewn tai a rennir yn y gymuned lle gall pobl fyw'n annibynnol gyda chymorth parhaus gan ymgynghorwyr ailsefydlu. |

## Atodiad 4: Ardaloedd rhanbarthol ac awdurdodau lleol

<table>
<tr><th>Rhanbarth</th><th>Awdurdod Lleol</th><th colspan="2">Byrddau Strategol a threfniadau is-ranbarthol VAWDASV</th></tr>
<tr><td rowspan="6">Gogledd Cymru</td><td>Conwy</td><td colspan="2" rowspan="6">Bwrdd Strategol VAWDASV Gogledd Cymru</td></tr>
<tr><td>Sir Ddinbych</td></tr>
<tr><td>Sir y Fflint</td></tr>
<tr><td>Gwynedd</td></tr>
<tr><td>Ynys Môn</td></tr>
<tr><td>Wrecsam</td></tr>
<tr><td rowspan="4">Canolbarth a Gorllewin Cymru</td><td>Sir Gaerfyrddin</td><td colspan="2" rowspan="4">Bwrdd Strategol VAWDASV Canolbarth a Gorllewin Cymru</td></tr>
<tr><td>Ceredigion</td></tr>
<tr><td>Sir Benfro</td></tr>
<tr><td>Powys</td></tr>
<tr><td rowspan="7">De Cymru</td><td>Bro Morgannwg</td><td rowspan="2">Rhanbarth Caerdydd a'r Fro</td><td rowspan="7">Bwrdd Cydweithio Rhanbarthol VAWDASV De Cymru</td></tr>
<tr><td>Caerdydd</td></tr>
<tr><td>Bwrdeistref Merthyr Tudful</td><td rowspan="3">Rhanbarth Cwm Taf</td></tr>
<tr><td>Rhondda Cynon Taf</td></tr>
<tr><td>Pen-y-bont</td></tr>
<tr><td>Abertawe</td><td rowspan="2">Rhanbarth y Bae Gorllewinol</td></tr>
<tr><td>Castell Nedd Port Talbot</td></tr>
<tr><td rowspan="5">Gwent</td><td>Blaenau Gwent</td><td colspan="2" rowspan="5">Bwrdd Strategol VAWDASV Gwent</td></tr>
<tr><td>Caerffili</td></tr>
<tr><td>Sir Fynwy</td></tr>
<tr><td>Casnewydd</td></tr>
<tr><td>Torfaen</td></tr>
</table>

Cymorth i Ferched Cymru
Tŷ Pendragon, Caxton Place,
Pentwyn, Caerdydd, CF23 8XE

02920 541 551
info@welshwomensaid.org.uk

www.welshwomensaid.org.uk

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr, rhif 1140962 a yn gwmni cyfyngedig trwy warant sydd wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr, rhif 07483469.

Follow us:
@welshwomensaid

Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First